# Y DINESYDD

Hydref 2025 Papur Pobl Caerdydd a'r Fro Rhif 501 £1.50





**Pen-blwydd Cymdeithas Gymraeg Dinas Powys yn 60!**
**Tud. 7**

**Myfyrwyr o Wlad Belg yn ymweld â chriw'r Dinesydd.** **Tud. 9**



**Ymweliad Eglwys Dewi Sant ag Abaty Margam**
**Tud. 19**



**Cod QR Y Dinesydd**

# Y DINESYDD


**Golygydd**
**Ela Pari Huws**

***Golygydd Tachwedd***
***John Emyr***

Cyfraniadau erbyn **27 Hydref** at:
john.emyr@hotmail.com

Y Digwyddiadur:
Yr Athro E Wyn James
JamesEW@caerdydd.ac.uk
16 Kelston Road, Caerdydd, CF14 2AJ
029 20628754

Hysbysebion:
Iestyn Davies
iestynd@gmail.com
15 Birchfield Crescent, Parc Victoria,
Caerdydd, CF5 1AE
07876 068498

Tanysgrifiadau:
Dr David Charles
david.charles1040@gmail.com
7 Vaughan Avenue, Llandaf,
Caerdydd, CF5 2HR

Prif Ddosbarthwr:
Arthur Evans
Yr Eglwys Newydd.
aloevans@icloud.com
029 20623628

**www.dinesydd.cymru**
Cyhoeddir gan Bwyllgor y Dinesydd.
Nodir hawl y golygyddion i gwtogi
ar erthyglau yn ôl y gofyn.

Argraffwyr:
Serol Print, Castell-nedd
Cysodydd: Dr Eirian Dafydd

CYMRAEG

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

e-bost:
ydinesydd@hotmail.com

Y Cyfryngau Cymdeithasol
Twitter: @DinesyddCdydd
Facebook:
www.facebook.com/YDinesydd








**Nid yw pwyllgor *Y Dinesydd* o angenrheidrwydd yn cytuno â phob barn a fynegir gan y cyfranwyr**.

## Siopau lle gwerthir *Y Dinesydd*

**CABAN**, Pontcanna
**CAFFI BLOC**, Parc Fictoria
**CAFFI FFLOC**, Heol Ddwyreiniol y Bontfaen
**CANT A MIL**, 100 Whitchurch Rd.
**DERI STORES**, Rhiwbeina
**GRIFFIN BOOKS**, Penarth
**PAPERWEIGHT**, 22 Wellfield Road
**SIOP FACH CAERDYDD**, Arcêd Frenhinol
**IECHYD DA**, Yr Eglwys Newydd
**VICTORIA FEARN GALLERY,** Rhiwbeina

# Colofn G.R.



## *Cofio Sefydlu'r Mudiad Meithrin*

Mae hi'n fis Hydref yn barod a gwyliau'r haf bron wedi mynd yn angof! Yn y byd gwleidyddol mae popeth yn digwydd ar hyn o bryd rhwng yr Is-Etholiad yng Nghaerffili a'r Etholiadau ar gyfer y Senedd ym Mae Caerdydd ar y gorwel a'r Llywodraeth yn San Steffan yn cloffi a neb yn siŵr beth ddaw nesa. Ar ben hyn oll mae'r byd wedi mynd yn lle perygl i fyw ynddo rhwng yr holl ryfela sy'n digwydd, ac anodd ydy gweld haul ar fryn yn digwydd yn fuan.

Beth bynnag, erbyn hyn mae cannoedd o Gymry ifanc galluog wedi croesi'r ffin i astudio yn Lloegr tra mae cannoedd o Saeson ifanc galluog wedi dod i astudio yn ein colegau ni gan lastwreiddio yr ethos Gymreig ynddyn nhw. Yn anffodus bydd llawer o'r Cymry ifanc sy wedi dewis mynd i Loegr ddim yn dychwelyd i Gymru ar ôl cwblhau eu cyrsiau, ac yn darganfod gwaith yn Lloegr gan amddifadu Cymru o'u galluoedd. Yn ddiweddar gwyliais i'r rhaglen *University Challenge* ar y teledu a'r ddau dîm oedd yn cystadlu oedd tîm o bedwar o Brifysgol Caerdydd yn erbyn tîm o bedwar o Brifysgol Bryste. Dim ond un Cymro oedd yn nhîm Caerdydd ac un Cymro yn nhîm Bryste! Rhyfedd o fyd. Gyda llaw. Prifysgol Bryste a orfu!

Yn ystod yr haf bu farw'r Cymro pybyr Alan Jobbins yr Eglwys Newydd, oedd yn enedigol o ardal Aberhonddu. Cydymdeimlir â'i deulu yn eu colled. Fo oedd yn bennaf gyfrifol am sefydlu Cymdeithas Carnhuanawc er cof am y clerigwr Thomas Price 1787-1848 oedd yn Gymro pybyr fel Alan ac yn dod o Sir Frycheiniog. Bu'n cynorthwyo Gwenynen Gwent i gyfieithu'r Mabinogi ac yn gefn iddi wrth drefnu Eisteddfodau Cymraeg yn y Fenni yn ogystal â sefydlu Ysgol Gymraeg yn ardal Llanfihangel Cwm Du. Claddwyd yn y fynwent yno a threfnir pererindod at ei fedd o dro i dro gan Gymdeithas Carhuanawc.

Nôl yn Ebrill cynhaliwyd gorymdaith lwyddiannus arall gan Fudiad Yes Cymru yn y Barri hefo tua chwe mil yn bresennol. Erbyn hyn mae'r Mudiad wedi cynnal sawl gorymdaith ledled Cymru a rwan cynhelir yr orymdaith ddiweddaraf yn y Rhyl ar Sadwrn y 18 o Hydref. Bydd hon yn orymdaith eithaf pwysig yn arbennig gan y cynhelir Etholiad ar gyfer Senedd Cymru yn Mae Caerdydd yn 2026.

Yn 1971 yn ystod Eisteddfod Genedlaethol Bangor cynhaliwyd cyfarfodydd ar Faes yr Eisteddfod i wyntyllu'r syniad o sefydlu mudiad a fyddai'n agor Cylchoedd Meithrin Cymraeg ledled Cymru. Yna trefnwyd Cynhadledd Genedlaethol yng Nghanolfan yr Urdd yn Aberystwyth ar y 25 o Fedi pan daeth llond y lle o bobl frwd dros y syniad i sefydlu'r Mudiad ac etholwyd Pwyllgor Cenedlaethol i fynd â'r maen i'r wal a daeth Emyr Jenkins o Gaerdydd yn Gadeirydd cyntaf y Mudiad newydd a Bethan Roberts hefyd o Gaerdydd yn Ysgrifennydd Cenedlaethol. Dros y blynyddoedd mae'r Mudiad wedi bod yn fodd i hybu'r Gymraeg ymhlith y to ifanc a thrwy hynny sicrhau dyfodol gobeithiol i'r iaith. Ers un mlynedd ar ddeg Dr Gwenllian Lansdown Davies sydd wedi bod yn brif weithredydd y Mudiad ond bellach mae hi wedi derbyn swydd newydd gan Lywodraeth Cymru yn Brif weithredwr corff newydd fydd yn gyfrifol am ddysgu proffesiynol ac arweinyddiaeth yn y Sector addysg yng Nghymru. Dymunir pob llwyddiant iddi yn ei swydd newydd.

Mae'r seren rygbi Rhys Patchell o Gaerdydd, cyn ddisgybl Ysgol Gyfun Glantaf newydd gyhoeddi yn 32 oed ei fod yn ymddeol o chwarae rygbi proffesiynol ar ôl gyrfa ddisglair yn y gamp gan ennill 22 o gapiau tra'n chwarae i Gymru. Fydd o ddim yn colli cysylltiad â'r gamp gan ei fod wedi ei benodi yn un o hyfforddwyr tîm rygbi'r Dreigiau yng Nghasnewydd. Pob lwc i ti Rhys yn dy swydd newydd.

Un arall sydd wedi ymddeol ydy'r seiclwr proffesiynol Geraint Thomas o Gaerdydd a gafodd yrfa ddisglair a phinacl ei yrfa siŵr o fod odd ennill Râs y Tour de France nôl yn 2018. Ei ras olaf odd y Râs Tour of Britain nôl ym mis Medi a orffennodd yng Nghaerdydd o flaen miloedd o'i gefnogwyr oedd am ddymuno'n dda iddo.

Wel dyna ni am fis arall ond cofiwch droi eich clociau nôl awr ar ddiwedd y mis hwn!




***Dathlu 60 mlynedd ers cychwyn yr Ysgol Feithrin yn Rhiwbeina, gweledigaeth Gwilym Roberts***

# Merched y Wawr
# Bro Radur

Wedi diwrnod llwydaidd a gwlyb, does dim gwell i godi'r galon na noson yng nghwmni hen ffrindiau ac ychydig o ganu hwyliog. Dyna'n union a ddigwyddodd nos Fercher, 10 Medi, pan ddaeth y gangen ynghyd i ddechrau gweithgareddau'r tymor newydd.

Mei Gwynedd a'r Gerddorfa Ukulele oedd yr arlwy ac am arlwy gwych a gafwyd. Cyflwynodd Mei Gwynedd y caneuon yn ei ffordd hwyliog gartrefol ac ymunodd merched y gangen gyda'r gerddorfa i ganu rhai o hoff ganeuon y genedl. Cafwyd caneuon gan Dafydd Iwan, Delwyn Siôn, Wil Morgan, Ar Log a'r Hennessys, Tony ac Aloma a'r diweddar ddihafal Dewi Pws. 'Joio Byw' gan Delwyn Siôn oedd un o'r caneuon ac yn wir fe gafodd y gangen awr a mwy o 'joio' yng ngwmni'r gerddorfa. "Noson i anghofio'n trafferthion a phroblemau'r byd", oedd sylw un o'r aelodau am y wledd a gafwyd. Mae'r gwybodusion yn dweud bod canu yn lles i'r enaid ac fe brofwyd hynny ar ein noson agoriadol.

Mae croeso i unrhyw ferch ymuno â ni. Rydym yn cyfarfod fel arfer ar nos Fercher cyntaf y mis yn Ysgoldy Newydd Eglwys Crist, Radur am 7.30pm. Mae gennym rhaglen amrywiol wedi ei drefnu ar gyfer y tymor newydd a chyfleon i gymdeithasu dros bryd o fwyd. Dechrau Tachwedd bydd Wyn Jones yn dod atom i'n cyfarwyddo ar sut i osgoi sgamiau yn yr oes ddigidol hon. Beth am ymuno â ni?



# Merched y Wawr
# Caerdydd

Roedd  yn bleser o'r mwyaf cael croesawu llond ystafell o hen aelodau a rhai newydd i gyfarfod cyntaf y tymor. Rhoddodd Cadeirydd eleni, Nia Richards, grynodeb o weithgareddau'r rhaglen newydd ac yna cyflwynodd ein siaradwr, Wyn Jones.

Mae Wyn wedi gweithio ym myd cyfrifiaduron a rhaglennu ar hyd ei yrfa, gyda chwmnïau fel SWALEC a Banc Lloyds, ac yn llawrydd i 3M, Mars, Banc Coop ac eraill. Teitl ei sgwrs oedd Seiberddiogelwch a Sgamiau, testun sy'n codi arswyd ar lawer ohonom. Mewn byd lle mae pob math o wybodaeth yn gyd gysylltiedig, mae'r dulliau o dwyllo pobl yn esblygu'n barhaus – wrth i un sgam ddod i'r amlwg, mae rhai eraill yn datblygu yn y cefndir, a'u prif bwrpas yw dwyn manylion ac arian pobl eraill.

Disgrifiodd Wyn sgamiau cyffredin – gwe-rwydo, dwyn cyfrineiriau, e-byst wedi'u clonio yn enw ffrindiau neu deulu, twyll dosbarthu parseli, cael eich cyfeirio ar rifau ffôn premiwm drud, galwadau ffug sy'n honni eu bod gan HMRC, banc, neu cwmni cyfleustodau yn gofyn am fanylion eich cerdyn. Ac yn ddiweddar, codau QR ffug wedi'u glynu dros rai dilys.

Rhoddodd gyngor defnyddiol ar sut i osgoi'r peryglon hyn. O ran defnyddio cyfrifiaduron, mae cael meddalwedd gwrth-firysau yn hanfodol i ddiogelu eich cynnwys. A pheidio â defnyddio'r un cyfrinair amlwg i bopeth – gallwch ddefnyddio rheolwr cyfrineiriau i'w storio. Ni ddylem gredu pennyn e-bost neu glicio ar ddolen os yw'r cynnwys yn teimlo'n amheus, na rhoi ein cyfrinair cyfan, trosglwyddo arian yn sgil galwad ffôn, neu ymateb i neges ddieithr ar WhatsApp.

Y prif gyngor yw pwyllo a meddwl cyn rhannu unrhyw wybodaeth bersonol. Os ydych yn teimlo'n amheus, camwch nôl. Y casgliad gan Wyn: Peidiwch â chael ofn OND.......!!



# Colofn Natur

## *Jaws yn troi'n hanner canrif*



Gethin Jenkins-Jones

Mis diwethaf, dathlwyd ffilm eiconig iawn yn troi'n 50 mlwydd oed - Jaws. Yn aml yn cael ei galw y *blockbuster* cyntaf, gwnaeth Jaws newid y diwydiant ffilm am byth, a hanner canrif yn ddiweddarach mae'n parhau i fod yn ffefryn i lu o gefnogwyr sinema. Er hyn, tan ei phen-blwydd ddiweddar nid oeddwn erioed wedi gweld y ffilm fy hun - rhywbeth eironig wedi i mi astudio nhw yn y brifysgol! Mae effaith y ffilm ar boblogaethau siarcod, yn ogystal ag agwedd pobl atyn nhw, yn parhau i fod yn fater dadleuol ymysg cylchoedd cadwraeth, a dwi o hyd wedi bod yn awyddus i weld Jaws i ddeall hyn. Felly, ar ôl gweld roedd y ganolfan Pontio am ddangos y ffilm ar y sgrin fawr i ddathlu'r achlysur, dewisais i brynu tocyn yn syth.




Cyn i'r ffilm gychwyn, gwnaeth Pontio drefnu sesiwn trafod, efo athro o adran ffilm Prifysgol Bangor yn cael ei holi am beth sy'n ei gwneud y ffilm mor effeithiol a chofiadwy. Roedd yn ddiddorol dysgu mwy am gefndir y ffilm a'r trafferthion a fu yn ystod y cyfnod ffilmio, er roeddwn braidd yn nerfus o glywed *spoilers* funudau cyn i mi ei gweld! Gofynnodd yr athro pwy o'r gynulleidfa oedd am weld y ffilm am y tro cyntaf, ac roeddwn yn falch gweld bron dwsin o bobl eraill yn yr un cwch (os maddeuwch y *pun*) a mi. Wedi ugain munud cychwynnodd y ffilm, a dwi'n hapus dweud ar y cyfan wnes ei joio yn fawr, diolch i'r actio, themâu, a'r gerddoriaeth anhygoel, sydd bron mor eiconig ar ffilm ei hun.

Does dim amheuaeth fe wnaeth Jaws effeithio siarcod yn negyddol - ac mae Steven Spielberg ei hun wedi ymddiheuro am hyn yn y blynyddoedd diwethaf. Er hyn, mae yna fwy o anghytuno am hyn na fyddwch yn disgwyl, ac fe wnes i ymchwilio hyn dros y dyddiau ar ôl gweld y ffilm. Yn sicr, wnaeth Jaws gael effaith ar agwedd pobl ar siarcod, efo lot fwy o atgasedd ac ofn atyn nhw yn y blynyddoedd wedi 1975. Mewn gwirionedd, ond tri o'r rhyw 500 math o siarcod sydd o beryg i bobl. Mae rhai yn dadlau roedd y fath ddrwgdeimlad cyn 1975, ac roedd hyn siŵr o fod yn wir i raddau, ond mae yna ryw fath y cytûn wnaeth y ffilm chwalu'r teimladau yma yn fwy nag y dylent.

Rhywbeth sy'n llawer mwy dadleuol yw effaith Jaws ar niferoedd siarcod. Mae yna ran yn Jaws lle mae timoedd o bobl yn mynd allan i'r môr i drio dal y siarc. Mae'n debyg fe wnaeth hyn ysbrydoli pobl i ddal a lladd siarcod ger arfordir America, ac wedi i'r ffilm gael ei rhyddhau gwelwyd twf yn y nifer o bobl oedd yn eu dal am sbort, gan niweidio poblogaethau rhai rhywogaethau. Ond o bosib fe wnaeth y twf hwn cael ei orbwysleisio, a heddiw mae'r diwydiant pysgota siarcod America ymysg y rhai mwyaf llym (a gweddol gynaliadwy) yn y byd. Mae'r bobl sy'n amddiffyn effaith Jaws yn dweud taw twf yng ngalw cawl asgell siarc yn Asia yw'r prif fygythiad i siarcod y byd, ac mae hyn yn hollol annibynnol o'r ffilm. Dwi'n cytuno â hyn, gan fod y galw yma yn arwain at ddegau o filiynau o siarcod yn cael eu lladd bob blwyddyn. Ar y llaw arall, mae effaith y ffilm ar agweddau pobl at siarcod o bosib wedi arwain at lai o bobl yn lleisiadu ofnadwyaeth y diwydiant yma.

Yn agosach at adre, a oes siarcod yng Nghymru sy'n bygwth i ddyn? Nac oes. Nid ydy ein siarcod o beryg i ni. Mae gennym ychydig o rywogaethau yma, fel y Heulforgi, Porbeagle, a'r Siarc Glas. Fy ffefryn i yw'r Mako, sy'n achlysurol yn cael ei weld yn y môr Gwyddelig. Perthynas agos at Siarc Gwyn Jaws (ond ffracsiwn y maint) y Mako yw un o bysgod mwyaf cyflym y byd, yn medru gwibio trwy'r dŵr efo cyflymder o 60 milltir yr awr. Nid ydw i erioed wedi gweld un (maent lawer mwy cyffredin yn y moroedd i'r de o Brydain), ond dwi'n croesi fy mysedd mi fyddaf ryw ddydd yn y dyfodol.

Mae Jaws yn ffilm arbennig o dda, a dwi'n falch wnes i ei weld am y tro cyntaf ar y sgrin fawr. Dwi'n gobeithio nawr y bydd cenedlaethau'r dyfodol yn gweld y ffilm gan fod yn ymwybodol nad ydy'r rhan fwyaf o siarcod o beryg i ni, ond dylai hynny ddim bod yn esgus i beidio cael hwyl yn ei gwylio!



***Mako (Mark Conlin) Public domain***

# Pobol y Rhigwm

Y mis diwethaf, parablodd y beirniad yn huawdl am yr hydref, ei hoff adeg o'r flwyddyn! Teimlaf fy mod i mewn lleiafrif go iawn yn fy hoffter o droi'r cloc nôl ar ddiwedd mis Hydref, a'r teimlad o glydwch a gaf wrth iddi nosi'n gynt! Dyna, wrth gwrs, wnaeth gymell gosod "awr ychwanegol" yn destun, a hynny ar fesur cymharol benagored. Daeth saith pennill ar fydr ac odl i law ond er mawr ryfeddod, ni chafwyd un englyn! Ro'dd ambell driban yma, ac o ran sylwedd, mae'n deg dweud bod yna athronwyr argyhoeddiadol ymhlith y rhigymwyr! Do'dd 'na'r un ymgais wan, ac os yw beirniad i hollti blew, yna mewn mis lle 'nes i gais penodol am fydr ac odl, diffygion o ran y naill yn hytrach na'r llall oedd yn gwahanu'r cystadleuwyr.

Mae triban Bys Bach yn gosod cywair athronyddol y casgliad yn glir: "Ni thwyllwn neb ond ni ein hun / Mai dyn sydd yn rheoli!" 'Ni ein hunain' sy'n gystrawennol gywir, ac mae hynny'n fymryn o wendid, ond yng nghyd-destun yr awr ychwanegol a gawn ar yr adeg hon o'r flwyddyn, mae'n gweddu'n ddiamheuol i'r testun. Mae pennill Mynachlog yn ddwfn iawn, ac yn myfyrio ar y cysyniad o amser: "... Ym mwrlwm y presennol, / Aeth munudau amserol / Yn gofnod o'r gorffennol." Soniais i'n gynharach mai'r elfen fydryddol oedd prif wendid y cystadleuwyr gwaetha'r modd, dyw pennill Mynachlog ddim yn llifo'n gwbwl esmwyth, er bod yma bennill o sylwedd.

> Daeth cais i ddychwelyd i'r gweithle
> Wedi cyfnod o weithio o'r cartre;
> Gyda'r traffig yn broblem gynyddol,
> Diolchir am awr ychwanegol.
>
> *Gweithiwr cartref*

Fe fydda i wastad yn croesawu cynigion ysgafnach, ac fe gafodd pennill Gweithiwr cartref groeso mawr! Fe fydd hwn yn siŵr o daro tant â'r rhai sy'n gorfod wynebu'r awr ruthr ar ôl dod i arfer â gweithio ar yr aelwyd! Mydryddiaeth rywfaint yn wamal sy'n golygu nad yw'n codi i dir uwch – byddai disodli "wedi" gyda ''rôl' ar ddechrau'r ail linell, a rhoi 'â'r' yn lle "gyda'r" ar ddechrau'r drydedd yn golygu bod naw sill ym mhob llinell, a'r pennill yn darllen yn haws. Wedi dweud hynny, dyma bennill amserol sy'n gwneud defnydd gwych o'r testun, da iawn wir.

> Ar waetha'r holl gynullio
> gall eiliad fy nadrithio,
> a'r funud nesaf newid byd
> heb awr i gydymffurfio.
>
> *Tanymarian*

Down yn ôl i dir athroniaeth gyda phennill solet Tanymarian. Dyma fynegiant rhugl o brofiad cyffredin i gymaint ohono ni. Gall bywyd newid ar amrantiad a rhaid newid cwrs yn ddiofyn, ac yn groes i ddisgwyliadau neu ddelfrydau. Y tro hwn, mae'r fydryddiaeth yn peri penbleth i'r beirniad! Triban heb odl gyrch sy gan Tanymarian ac fe fyddai'n rhaid tynnu marciau am hynny, fel arfer. Fodd bynnag, gofyn am bennill pedair llinell ar fydr ac odl 'nes i, ac felly, dyw Tanymarian ddim yn torri'r un amod! Gan fod 'na dribannau cryf ar y brig, mae'n rhaid i fi ddwyn diffyg odl gyrch i ystyriaeth mewn ymgais sy'n anelu at fod yn driban! Wedi dweud hynny, diolch yn fawr i Tanymarian am bennill sy'n crynhoi agwedd ddiamser ar fywyd mor gynnil ac mor wreiddiol.

Mewn mis lle mae mydryddiaeth wedi bod yn faen prawf llym, da yw dweud bod y tri sy wedi cyrraedd y podiwm yn batrymau o benillion sy'n darllen yn naturiol ac yn llifo'n ddiymdrech:

> Am ennyd o freuddwydio nawr,
> a dim ond awr yw'r swm,
> bydd demon Faust yn derbyn pris,
> pum mis o nosau llwm.
>
> *Bargen!*

Pennill ysgafn a chrafog, â dwy odl gyrch yn y fargen, Bargen! Dyma ni ym myd llên gwerin yr Almaen, gyda'r pennill yn adleisio'r hanes am y sgolor Faust yn gwerthu ei enaid i Mephistopheles yn gyfnewid am wybodaeth a phleserau bywyd! Pan fydd y rhelyw ohonom yn diolch am gael awr ychwanegol yn y gwely, mae Bargen yn rhagweld y gost a dalwn am hynny. Agwedd hynod wreiddiol, gwych!

Dau driban, sy'n weddill, ac fe fuodd hi'n anodd iawn dewis rhyngddyn nhw.

> Gwna'r hyn sy'n angenrheidiol
> Heb oedi yn ormodol,
> Waeth ofer ymbil pan ddaw'r Wawr
> Am awr fach ychwanegol!
>
> *Yfory'n Rhy Hwyr*

Cyngor doeth wedi'i wau'n gampus i fesur y triban sy gan Yfory'n Rhy Hwyr. Fe glywaf 'carpe diem' yn adlais drwyddo, ac mae e wedi troi'r testun ar ei ben. Mae'r gair "ymbil" yn ddewis ardderchog o ferf yn y drydedd linell, cymaint cryfach na, dyweder, 'gofyn'. Mae'n rhy hwyr "ymbil" am awr ychwanegol, heb fachu cyfleoedd bywyd yn y fan a'r lle. Dydw i ddim cweit yn siŵr pam fod priflythyren i "Wawr", ond nage hynny sy'n fy mhoeni, fel y cyfryw! Y ffaith fod yr odl gyrch yn syrthio ar "awr" yn hytrach na'r ansoddair, "fach", sy'n fy mhoeni! Gellid ei gyfiawnhau ar sail mynegiant, hefyd. Gobeithio y gall Yfory'n Rhy Hwyr faddau i fi am fod mor bedantig, achos mae yma driban rhagorol yma, gan athronydd o'r iawn ryw.

> Nid o'n i'n ymwybodol
> fod amser yn fympwyol.
> Y briodas ydoedd awr yn gynt –
> fy hynt sy'n amhenodol.
>
> *Mewn twll*

Hwn sy'n mynd â hi! Diolch i Mewn twll am gomedi o driban sy'n rhedeg yn berffaith. Mae hynny'n gryn gyflawniad! Mae'r hiwmor sych yng nghynildeb y dweud wedi gweithio i'r dim, gyda'r cymeriad o dan sylw yn taeru iddo fethu ei briodas ei hun (dybia i) ar sail ei anwybodaeth am y ffaith "fod amser yn fympwyol"! Mae'r llinell glo, wedyn, yn ddigri tu hwnt! Y tu ôl i'r ffraethineb mae'n amlwg fod yma rigymwr deallus â'r ddawn i ddefnyddio geiriau at y diben, llongyfarchiadau mawr!

**Enillydd Medi**
**Martin Huws**

**Cystadleuaeth Hydref**

**Limrig yn cynnwys y llinell:**
**Ar Dachwedd y pumed, rhaid cofio**

*Aron Pritchard*

*Anfonwch eich cynigion erbyn 25 Hydref at:*
*eirianagwilym@gmail.com   Gwobr Tocyn llyfr: £10*

# Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina

Estynnwyd croeso gan Iona Edwards, y Cadeirydd i'r gynulleidfa niferus ddaeth i Bethel i'n noson agoriadol ar 15 Medi. Cafwyd cyflwyniad gan Eleri Twynog, ein gwestai gwadd, a roddodd fraslun o'i hanes â'i chysylltiadau cynnar â Llambed, gan gynnwys ei chyfnod yn aelod o'r grŵp poblogaidd 'Cwlwm'. Soniodd am ei hastudiaethau prifysgol mewn Drama Gymraeg, Marchnata a Thwristiaeth â arweiniodd at yrfaoedd llwyddiannus gyda'r Bwrdd Dŵr, yr Eisteddfod Genedlaethol, ac S4C. Erbyn hyn Eleri yw sylfaenydd Cwmni 'Mewn Cymeriad'.



Nia Jones, Eleri Twynog Davies ac Iona Edwards

Diolchodd Eleri am y croeso a chyfeiriodd at ddiwedd ei chyfnod gyda S4C yn 2014 fel croesffordd. Gyda'i chefndir addysgol a'i phrofiad byd gwaith, cyfunodd ei sgiliau a mentrodd sefydlu Cwmni 'Mewn Cymeriad'. Menter a ysbrydolwyd gan y profiad a'r mwynhad pur â gafodd hi a'i brawd o gymryd rhan yn Sioe 'Yr Arglwydd Rhys' yn Eisteddfod Genedlaethol Aberteifi yn 1976. Bu ei chof byw o'r caneuon, y gwisgoedd, y symudiadau ac ati yn ysgogiad i sefydlu cwmni theatr sy'n llwyfannu sioeau am gymeriadau a straeon o hanes Cymru.

Ar y cychwyn, ei bwriad oedd darparu sioeau rhyngweithiol, un person, i ysgolion cynradd. Erbyn hyn, mae gan y cwmni ystod eang o gyflwyniadau dramatig at gyfer blant o bob oed ac oedolion, oll yn canolbwyntio ar hanes Cymru. Ym Medi eleni mae'n dathlu'r garreg filltir o 100 o sioeau, ymweld â bron 400 o ysgolion a diddanu hyd at 20,000 o blant.

Cyfeiriodd at y gweithgareddau sydd ar gael yn y ddwy iaith sy'n berthnasol ar gyfer oedrannau cynradd ac uwchradd. Soniodd am y cydweithio rhwng ei Chwmni â sefydliadau treftadaeth megis Cadw, Yr Amgueddfa Wlân ac ati. Cyfeiriodd hefyd at y nifer o sgriptwyr, actorion, a gweithwyr cysylltiedig â'r theatr a gyflogir gan y Cwmni.

Enghraifft wych o 'ddysgu creadigol' yw'r fideo a ddangosodd o ddisgyblion Ysgol Gymraeg Tonyrefail yn rhannu eu stori hanesyddol ym Mharc Treftadaeth y Rhondda. Amheuthun oedd gweld eu mwynhad wrth rannu eu hanes lleol yn llawn asbri a brwdfrydedd.

Cyfeiriodd Eleri at yr ystod o gymeriadau hanesyddol lliwgar a diddorol sydd dan adain 'Mewn Cymeriad'. Un esiampl yw Cranogwen, sef Sarah Jane Rees o Langrannog oedd yn ferch unigryw, amryddawn ac annisgwyl. Un arall yw David Davies Llandinam - Teicŵn Cyntaf Cymru ac un o gewri y Chwyldro Diwydiannol. Cyfeiriodd at ddwy sioe gymunedol sydd ar y gweill ar hyn o bryd sef 'John Petts' a 'Waldo'. Bydd cyfle i weld 'John Petts' yn Neuadd Llanofer ar Hydref 23ain. Hanes yw am y ffenest liw a greodd i Eglwys yn Alabama yn 1965 - rhodd o Gymru yn arwydd o'i safiad yn erbyn hiliaeth ac anghyfiawnder.

Diolchwyd yn gynnes iawn i Eleri ar ran y Gymdeithas gan Nia Jones. Mynegodd ei gwerthfawrogiad o'r arlwy diddorol â gaiff disgyblion Cymru trwy weithgareddau a phrosiectau 'Mewn Cymeriad'. Dywedodd bod Eleri wedi trawsnewid sut y cyflwynir hanes Cymru i blant Cymru, gan ei wneud yn gyffrous, yn atyniadol ac yn llawn hwyl.

---

# Clwb Canna

Am wledd a gawsom ni yng Nghlwb y Liberals, Treganna ar Fedi'r 26 a 27 gyda'r band eiconig Bwncath yn ein diddanu y ddwy noson. Roedd y neuadd dan ei sang bob nos a phawb i weld yn mwynhau eu hunain. Mae Clwb Canna yn hoffi hybu talent ifanc, lleol ac i gefnogi ar y nos Wener roedd y band Mac ac ar y nos Sadwrn, y band Penbleth. Does wybod beth sydd yn y dŵr yn Ysgol Plasmawr ond mae'n glod mawr iddynt gael dau fand gyda chryn dalent. Braf oedd eu gweld yn mwynhau rhannu'r llwyfan gyda Bwncath ac o flaen y fath dorf, yn eu mysg aelodau teulu a ffrindiau. Mae dyfodol disglair o flaen rhai o'r bobl ifanc yma, pob lwc iddynt.



Bwncath a Mac



Penbleth

Roedd hi hefyd yn hyfryd gweld dau chwaraewr sacsoffon lleol yn cael siawns i ddangos eu doniau wrth ymddangos ar y llwyfan gyda Bwncath i chwarae ar eu cân 'Haws i'w Ddweud'. Lloyd Cottrell ar y nos Wener ac Aidan Dorrington (o'r band Mac) ar y nos Sadwrn. Roedd y dau yn hynod wych, diolch yn fawr iddynt.

Roedd yr awyrgylch yn hollol wefreiddiol y ddwy noson gyda'r gynulleidfa yn cael dawnsio neu gyd ganu fel y mynnent. Pinacl y ddwy noson oedd clywed y dorf yn canu 'Fel Hyn Mae Hi Fod', 'Yma o Hyd', a'r anthem genedlaethol gyda Bwncath. Mae hi mor braf gweld cerddoriaeth Gymraeg yn ffynnu ac yn denu y fath gefnogaeth yma yn y brifddinas. Diolch i bawb lleol ddaeth i gefnogi a hefyd rhai a drafaeliodd ymhellach, rhai o Sir Drefaldwyn a rhai, hyd yn oed, o'r Iseldiroedd. Diolch Bwncath.

# Siaradwyr Cymraeg Newydd

Darganfod
Rhifyn 9



## Gwilym Dafydd

**Adborth i golofn *Y Dinesydd***

Soniais ychydig am Dystion Jehofa yn fy ngholofn fis Gorffennaf. Holais ar y diwedd: Tybed a oes Tystion Jehofa yn darllen *Y Dinesydd*? Wel yr ateb yw oes! Diolch yn fawr i Chris Alsop am anfon e-bost ataf.

*Annwyl Gwilym*,

Darllenais rhifyn 499 o'r *Dinesydd* yn ddiweddar ar ôl dod o hyd i gopi yng Nghaffi Ffloc, yn enwedig eich colofn yn adrodd hanes eich siwrne adre o'r Gogledd. Dwi'n hapus i gadarnhau bod Ruth a minnau yn darllen *Y Dinesydd* pan dan ni'n cael un - dan ni'n byw yng Nghastell Nedd.

Mae'n diddorol i glywed am bobl o'r Gogledd e.e. yn rhifyn Gorffennaf/Awst roedd llun o Christopher Enston, yr organydd, sy'n dod o bentref genedigol Ruth sef Treuddyn, ger Yr Wyddgrug, Sir Fflint.

Tystion Jehofa ydyn ni. Cyn straffaglu gyda'r her o yrru, roeddem ni'n aelodau o Gynulleidfa Gymraeg Tystion yng Nghaerfyrddin. Mae 'na 3 cynulleidfa Cymraeg arall yn y Gogledd : Bangor, Porthmadog a Rhuthun. Roeddem ni i fyny yn y Gogledd ein hunain mis Awst i fynychu Cynhadledd Rhanbarthol Tystion Jehofa yn Theatr Gogledd Cymru yn Llandudno.

Ynglŷn â'r ail gwestiwn: dwi ddim yn adnabod yr emyn 'Wrth orsedd y Jehofa mawr' chwaith, ond diolch am dynnu sylw i'r llinell. Fel nifer o Dystion dwi ddim yn dod o gefndir traddodiadol capeli felly dyna'r esboniad efallai am ymateb ein chwiorydd ym Mhorthmadog. A dwi'n hapus i gadarnhau da ni'n canu yn ein cyfarfodydd, teirgwaith ganol wythnos a Dydd Sul. Gewch chi darllen y geiriau a phopeth arall sydd ar gael yn y Gymraeg ar ein safle we jw.org (trowch i'r iaith Gymraeg wrth gwrs). Mae ambell un hefyd wedi cael eu recordio gyda lleisiau a miwsig.

Mi gewch chi ddyfynnu o'r e-bost yma os dach chi eisiau defnyddio peth ar gyfer eich colofn gyda llaw.

A diolch am eich caredigrwydd wrth siarad gyda ein cyd-Dystion, Porthmadog neu yn y ddinas - da ni wir yn gwerthfawrogi gwên a chyfarchion cyfeillgar.

*Yn gywir*
*Chris Alsop*

**Darganfod rhifyn colledig**

Ces i neges e-bost gan Penri Williams y dydd o'r blaen. Mae newyddion hanesyddol ardderchog yma. Mae'n debyg bod nifer o hen rifynnau ar gael yn Llyfrgell y Brifysgol gan gynnwys rhif 9, Chwefror / Mawrth 1974.

Erbyn hyn mae Penri wedi ei osod gyda'r gweddill ar ein gwefan dinesydd.cymru.

Os ewch i edrych yno byddwch yn gweld ar y clawr mewn print coch: 'Copi o gasgliad wedi'i rwymo oddi wrth Llyfrgell Prifysgol Caerdydd.'

Felly gair o ddiolch i Penri am y gymwynas.

**Clonc, Radio, Teledu a Chlonc**

Ydych chi'n teimlo bod ambell i ddiwrnod yn fwy cyffrous nag eraill? Bydda i'n cofio dydd Llun, 29 Medi am wythnos neu ddwy.

Roedd naw ohonom yn Clonc Yr Awr Hapus yn yr Hollybush, Coryton rhwng 10.45 – 11.45. Hanner awr yn ddiweddarach ro'n i'n sgwrsio ar y ffôn gyda Shân Cothi, Radio Cymru tan 12.30. Ron i wedi bwriadu rhoi plwg i Ian a Jan, Julian a Julia, Rob, Emyr, Eirian a'i brawd Goronwy wrth ddechrau sgwrsio gyda Shân – ond wnes i ddim!

Dwi'n tybio taw Annell Dyfri, aelod ifancaf pwyllgor *Y Dinesydd* gafodd y plwg mwyaf gen i. Daeth Jim Parc Nest, Owain Rhys a sawl enw arall mewn i'r sgwrs hefyd – os oes diddordeb yna BBC Sounds amdani am 28 diwrnod!

Yna yn ddiweddarach aeth Eirian a fi draw i dafarn yr Albany, 105 Stryd Donald, erbyn 6.30 i gyfarfod Lowri Haf Cooke ac erbyn saith roedd tri o griw rhaglen HENO wedi cyrraedd o Lanelli. Cafodd y tri ohonom gyfle i ateb cwestiynau am rifyn hanesyddol 500 ac ati. Y bwriad oedd ein bod yn cael ychydig o sylw ar raglen *HENO* y noson ganlynol, 30 Medi sef Diwrnod Waldo.

Erbyn hyn mae yna glonc newydd ar nos Lun, 7-9 o'r gloch yn yr Albany. Pob lwc a llwyddiant i'r clonc newydd. Gwelir rhai o'r aelodau yn y llun isod.

Mae hanes am y datblygiadau newydd hyn yng ngholofn Lowri – Bwytai Merch y Ddinas yn rhifyn 500.



# Cymdeithas Cymru-Ariannin

Cafwyd noson lwyddiannus iawn yng Nghapel Bethel Rhiwbeina ar 11 Medi yng nghwmni'r artist Meirion Jones. Yn ôl Gerallt a Pat Nash, a ddaeth i'r sgwrs:

'Am noson ddifyr gawsom ni yng nghwmni Meirion Jones. Daeth ryw ddeugain o bobl ynghyd i wrando ar yr arlunydd yn sôn am ei lyfr 'Patagonia: Taith Mewn Paent', sy'n gasgliad o luniau o'i ymweliad â'r Wladfa yn ddiweddar. Bu yn ein tywys ni, trwy gyfrwng ei luniau, ar hyd Dyffryn Camwy, ar draws y peithdir, ac ymlaen i Gwm Hyfryd yng ngodre'r Andes. Cafodd Pat a finnau y fraint o fyw yn Nyffryn Camwy am bron i flwyddyn yn ôl yn 1975. Ym 1999, aethom yn ôl, y tro yma gyda'n plant. A nawr, dyma gyfle arall i weld y wlad trwy lygaid craff un o brif artistiaid Cymru.



***Yn y llun mae portread Meirion o un o gymeriadau mwyaf lliwgar Y Wladfa – Elved Vicente Evans (gyda Meirion a'i wraig Joanna bob ochr iddo).***

Mae gan Meirion ddawn arbennig i gyfleu naws ardaloedd a thrigolion Y Wladfa. Trwy ddefnyddio cyfuniadau annisgwyl o liwiau, cawsom brofi disgleirdeb a gwres yr haf, yn ogystal â noethni'r bryniau a'r creigiau wrth groesi'r paith.

Roedd ei ddisgrifiadau yn gweddu'n gelfydd i'w luniau hyfryd. Gwelsom gapel bach diarffordd unig Glan Alaw ger Dolavon, yr afon Camwy yn ymdroelli'n araf yng ngolau machlud yr haul, a chysgodion o het blethedig yn creu patrymau ar wyneb hen amaethwr. Daeth wynebau, cyfarwydd i rai ohonom, yn fyw o flaen ein llygaid, a llun ambell gartref yn dwyn atgofion melys am gwmnïaeth unigryw aelwydydd y Wladfa. Mor diddorol oedd sylwi ar debygrwydd ac osgo wynebau'r trigolion, a'r rheini mor bell o gartrefi eu cyndeidiau yn yr 'Hen Wlad'.'

Yn ôl Iwan Madog Jones, Ysgrifennydd y gangen: 'Bues i'n dysgu ac yn gwneud gwaith menter yn Yr Ariannin am bedair blynedd (tair blynedd yn yr Andes a blwyddyn yn y Dyffryn). Roedd hi'n braf gweld nifer o bortreadau o wynebau cyfarwydd, a rhai sydd ddim hefo ni bellach. Roeddwn i'n hoff iawn o'r llun o Lizzy Lloyd yn ei gardd o flaen y lupins. Mae'r lupins yn bla yng nghefn gwlad Patagonia er mor hardd ydyn nhw yn eu blodau. Roedd y llun yn dal yr ieuenctid chwareus oedd yn perthyn iddi. Roedd Lizzy, er yn ei hwythdegau, bob tro yn neidio fyny a lawr yn y ganolfan yn Esquel, pan roedden ni'n paratoi at ryw gân actol ar gyfer y 'Steddfod draw.

Diddorol oedd hi hefyd dysgu am yr ochr dechnegol o baentio, sut roedd defnyddio'r glas yn gwneud i'r lliwiau oren a cochaidd yn y lluniau ymddangos hyd yn oed yn fwy cynnes.'

Diolch i'r tri ohonoch ac i bawb gefnogodd y noson, i Bethel am eu croeso, ac i'r rhai drefnodd y baned a'r danteithion. Cawsom ddod i nabod Y Wladfa a'i phobl a hynny trwy lygaid artist arbennig iawn.

*Dafydd Griffiths*

## Ymwelwyr o Wlad Belg

Ym mis Mehefin, daeth myfyrwyr o Brifysgol Antwerp draw i Gaerdydd i ddarganfod mwy am *Y Dinesydd* ynghyd â S4C, BBC Cymru ac Adran Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru.

Fel rhan o'u hymchwil i'r cyfryngau Cymraeg, roedd y myfyrwyr newyddiaduraeth wedi cysylltu wedi iddyn nhw ddod ar draws gwefan *Y Dinesydd*. Roedden nhw am ddysgu mwy am *Y Dinesydd* a phapurau bro gan eu bod yn ymddiddori yn newyddiaduraeth cyfrwng Cymraeg.

Cefais i fy nghyfweld gan y myfyrwyr ym Mharc Alexander ger adeilad Llywodraeth Cymru ac fe'u gwahoddwyd nhw i'n cartref gan eu bod yn awyddus i ffilmio teulu Cymraeg. Roedden nhw'n ymddiddori yn y sefyllfa ieithyddol yng Nghaerdydd a'r iaith Gymraeg ac yn gweld peth tebygrwydd gyda'r sefyllfa ym Mrwsel ble mae'r Fflemeg yn iaith leiafrifol.

Roedd y myfyrwyr yn hoff o ddinas Caerdydd, yn enwedig ei pharciau. Roedden nhw wrth eu boddau gyda'r picau ar y maen ym marchnad Caerdydd hefyd.

Braf oedd estyn croeso i'r myfyrwyr o wlad Belg. Mae'n rhaid bod *Y Dinesydd* wedi creu argraff arnyn nhw a bod gan *Y Dinesydd* ar ei rifyn 500, gefnogwyr rhyngwladol!

*Iestyn Rhys Davies*


## Tiwtor Mathemateg

**Llongyfarchiadau llon a llawen i'm myfyrwyr ar ganlyniadau haeddiannol eto eleni.**

**Cefnogwch eich plentyn i gyrraedd ei botensial (photensial) mewn pwnc allweddol pwysig yn ei yrfa (gyrfa).**

**Hyfforddiant CA3, TGAU (Rhifedd a Mathemateg), UG a Safon Uwch ar Zoom neu yn fy nghartref yn Penylan. Tiwtor profiadol iawn a llwyddiannus.**

**Manylion pellach 07 968 463 737 neu serenagwill@btinternet.com**

## Diwrnod Shwmae Su'mae

Cael hwyl wrth siarad Cymraeg fydd prif thema Diwrnod Shwmae Su'mae 2025 wrth i Mentrau Iaith Cymru baratoi ar gyfer y digwyddiad blynyddol. Bydd yr ymgyrch yn cyrraedd uchafbwynt ar ddiwrnod cenedlaethol o ddathlu, dydd Mercher, 15 Hydref.

Eleni, bydd yr ymgyrch yn annog pobl i rannu clip fideo o'u hunain yn mwynhau gweithgaredd yn y Gymraeg gan fachu ar fomentwm blwyddyn 'Hwyl' Croeso Cymru.

Meddai Myfanwy Jones, Cyfarwyddwr Mentrau Iaith Cymru, "Ein nod yw dathlu'r ystod eang o weithgareddau sy'n dod â phleser i ni fel siaradwyr Cymraeg a thynnu sylw at y gwaith gwych sy'n cael ei wneud gan glybiau, mudiadau ac ysgolion drwy Gymru gyfan i sicrhau bod modd i ni wneud nhw yn Gymraeg.





Wyt ti'n paragleidio, yn nofio gwyllt neu'n padl-fyrddio yn Gymraeg? Wyt ti'n perthyn i gôr, grŵp cerdded neu glwb drama? Beth am fynd ati i greu fideo fer ohonot ti a dy ffrindiau yn cael hwyl a'i rhannu ar y cyfryngau cymdeithasol? Rydyn ni'n edrych ymlaen at weld pa fath o weithgareddau mae pobl yn mwynhau yn Gymraeg!"

Mae syniadau eraill i ddathlu'r diwrnod ar gael ar wefan Shwmae Su'mae - shwmae.cymru - gyda sticeri, ffrâm hunlun a swigod 'shwmae' ar gael i'w lawrlwytho. Ar gyfer cymorth neu gyngor ychwanegol, mae croeso i chi gysylltu â diwrnodshwmae@gmail.com neu eich Menter Iaith leol.

Wrth rannu fideo ar y cyfryngau cymdeithasol, cofiwch ddefnyddio'r hashnodau #Hwyl a #shwmaesumae25 a thagio @ShwmaeSumae ar Facebook neu @diwrnodshwmaesumae ar Instagram a TikTok.



# Ysgol Gymraeg Iolo Morganwg

**Ymestyn y Gymraeg i'r gymuned!**

Un o amcanion y Siarter Iaith mewn ysgolion yw annog plant a theuluoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned a thu hwnt i'r ysgol. Un ffordd wych o wneud hyn yw drwy gefnogi busnesau lleol sy'n siarad Cymraeg yn ein cymuned.

Yn ddiweddar, mae disgyblion Ysgol Gymraeg Iolo Morganwg yn y Bontfaen wedi bod yn mynd ar antur gyda Seren a Sbarc, dau gymeriad hoffus sy'n annog y plant i ddefnyddio'r Gymraeg gartref ac yn y gymuned. Bob dydd Gwener, mae Seren a Sbarc yn mynd adref gyda phlentyn mewn bag arbennig tan y dydd Mercher canlynol. Yn ystod yr amser hwn, mae plant o'r Dosbarth Meithrin i Flwyddyn 2 yn cael eu hannog i wneud gweithgareddau Cymraeg fel gwylio rhaglenni ar Cyw, defnyddio apiau Cymraeg, dod yn aelod o lyfrgell leol a darllen llyfrau Cymraeg neu ymweld â busnesau lleol lle mae'r Gymraeg yn cael ei siarad.

Un gweithgaredd poblogaidd ym Mlwyddyn 2 yw ymweld â gweithleoedd lleol i ddarganfod pobl sy'n siarad Cymraeg, fel y cigydd, y siopwr neu'r tafarnwr. Mae'r plant yn rhoi bathodyn 'Cymraeg' i'r person a'u hannog i'w wisgo i ddangos eu bod yn siarad Cymraeg, yn ogystal a rhoi poster 'Hapus i Siarad Cymraeg' gan 'Mentrau Iaith Cymru' i'w arddangos yn eu busnes. Mae'r wybodaeth hon wedyn yn cael ei rhannu yn ôl yn yr ysgol fel bod pawb yn gwybod ble mae modd siarad Cymraeg yn y gymuned.

Os welwch chi boster yn y ffenestr, cofiwch siarad Cymraeg!




# Ysgol Glan Morfa

## Llwyddiant

Mae Ysgol Glan Morfa yn falch iawn o rannu canlyniadau ein harolygiad diweddar, a oedd yn hynod gadarnhaol. Mae'r adroddiad yn cydnabod safonau uchel yr addysgu a'r dysgu, ynghyd â'r gofal a'r gefnogaeth ragorol sy'n cael eu cynnig i bob disgybl.

Cafwyd clod arbennig i'r amgylchedd cynhwysol sy'n rhoi pwyslais ar les, hyder a datblygiad personol y plant. Nodwyd hefyd fod y disgyblion yn frwdfrydig ac yn ymfalchïo yn eu gwaith, gan gyfrannu'n llawn i fywyd yr ysgol.

Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at gryfderau'r berthynas rhwng yr ysgol a'r gymuned leol, ac at y modd y mae rhieni a theuluoedd yn cefnogi'r ysgol. Mae'r cydweithio hwn yn sicrhau profiad addysgol cyfoethog i'n disgyblion ac yn gosod sylfaen gadarn ar gyfer y dyfodol.

Hoffem ddiolch i'n holl ddisgyblion, rhieni, teuluoedd a staff am eu cefnogaeth a'u hymroddiad, sydd wedi arwain at y canlyniad cadarnhaol hwn. Bydd Ysgol Glan Morfa yn parhau i adeiladu ar y llwyddiant a nodwyd, gan sicrhau addysg Gymraeg o ansawdd uchel i bawb.

## Gwahoddiad i ymuno â Côr Hen Nodiant

Mae Côr Hen Nodiant yn awyddus i ddenu aelodau newydd sydd yn 60 oed neu drosodd adeg yr Eisteddfod yn 2026. Ers ei sefydlu yn 2008 mae'r côr wedi bod yn llwyddiannus iawn gan ennill y Gystadleuaeth i Gorau dros 60 oed ar 13 achlysur. Er mai cystadlu yw prif nod y côr, mae hefyd yn gyfle i gymdeithasu a dod i gwrdd â phobl newydd.

Mae'n harweinydd, Catrin Williams, yn brofiadol iawn ac yn awyddus i roi cyfle i aelodau newydd ymgartrefu yn y côr ac i fwynhau'r profiad o ganu a dysgu darnau newydd.

Cynhelir yr ymarferion am 7.30yh ar nos Fercher yn festri Capel Salem, Treganna. Bydd y côr yn ail-ddechrau ymarfer ym mis Hydref a bydd croeso i aelodau newydd, yn Soprano, Alto, Tenor neu Bas, ddod i'r ymarferion yn ystod y mis. Mae gwybodaeth pellach ar wefan www.corhennodiant.cymru a gallwch gysylltu trwy e-bost: corhennodiant@gmail.com

Côr Hen Nodiant

# Llys a Llan

*Colofn sy'n crwydro ar hyd meysydd llên, crefydd a hanes yng Nghaerdydd a'r Fro*


## Yr Athro E. Wyn James




### W. J. Jones a'r *Dinesydd*

Ar ddechrau ei gyfrol *Meddwl am Man U* (2021), dywed y cyn-bêl-droediwr proffesiynol Rhodri Jones hyn:

> *Cyflwynaf y llyfr hwn i Nhad-cu, W. J. Jones (1928–2019)*
>
> *Byth a beunydd â danteithion yn ei boced –*
> *Losin y dewin ac ambell blanc o siocled.*
> *Llu o drysorau ar ei gwpwrdd llyfrau,*
> *W J ar y clawr, ond Tad-cu i ninnau.*
>
> *(Dyfyniad o gerdd ysgrifennais i Tad-cu i ddathlu ei ben-blwydd yn 90 mlwydd oed.)*

Ac yn y 'Diolchiadau', fe ddywed Rhodri: 'Diolch i Dad-cu am drosglwyddo'r cariad at eiriau i'w ŵyr.' Nid rhyfedd, felly, yw gweld Paul, mab W. J. Jones, yn dweud fod ei dad 'yn dad-cu arbennig o dda' a'i fod 'yn dwlu ar gwmni plant'.

Mewn erthygl yn Ebrill 2022 yn ei golofn yn *Cwm*ni, papur bro Sir Caerffili, dywed Dafydd Islwyn, Llywydd Anrhydeddus Barddas, hyn am W. J. Jones:

> Brodor o Ysbyty Ystwyth oedd W.J. ac wrth ei ddwyn i gof rydw i yn ei gofio fel awdur rhaglenni adran addysg BBC Cymru; darlithydd yng Ngholeg Cyncoed o 1963 i 1987; eglwyswr; enillydd saith gwobr yn y Genedlaethol; golygydd a nofelydd. Yn bennaf cofiaf amdano fel darlithydd yn Adran Efrydiau Allanol Prifysgol Cymru, Caerdydd, yng Nghaerffili. Dosbarth a sefydlwyd gan Doctor Meredydd Evans ym mis Medi 1973. W.J., fel yr oedd yn cael ei alw yn barchus gan aelodau ei ddosbarth, yn paratoi darlithoedd yn fanwl am ddau ddeg tri thymor o fis Medi 1974 hyd fis Mawrth 1997.

A gallai Dafydd Islwyn fod wedi ychwanegu at y rhestr hir honno o'i gyflawniadau, 'cyfrannwr o'r dechrau i'r *Dinesydd*, papur bro cyntaf Cymru' – papur y bu Meredydd Evans yn bennaf cyfrifol am ei sefydlu yn yr un flwyddyn ag y sefydlwyd y dosbarth nos yng Nghaerffili.

Roedd W.J. yn un o'r rhai a ddaeth ynghyd yn 1972 i drafod y posibilrwydd o sefydlu papur newydd lleol Cymraeg i wasanaethu Caerdydd a'r cylch. Amheus iawn ydoedd o lwyddiant y fenter ar y dechrau. 'Ffolineb llwyr oedd meddwl am gychwyn papur Cymraeg i Gaerdydd' oedd ei farn yr adeg honno, meddai mewn ysgrif yn rhifyn dathlu pen-blwydd *Y Dinesydd* yn 25 mlwydd oed yn Ebrill/Mai 1998. Er hynny, roedd ganddo erthygl yn y rhifyn cyntaf un, ym mis Ebrill 1973, y gyntaf o eitemau di-rif ganddo a ymddangosodd yn y papur dros y blynyddoedd.

Bu ei gyfraniad i'r *Dinesydd* yn un sylweddol a gwerthfawr, nid lleiaf yn y cyfnod o argyfwng yn hanes y papur yn 1993 (y soniais amdano yn rhifyn dathlu pen-blwydd *Y Dinesydd* yn 50 mlwydd oed yn Ebrill/Mai 2023), pan ddaeth W.J. yn un o banel golygyddol newydd ar gyfer y papur. Ef oedd arweinydd y panel hwnnw ar y dechrau, a chwaraeodd ran bwysig yn y gwaith o gasglu a golygu deunyddiau tan ddiwedd yr 1990au a dechrau'r drefn yn 2000 o gael 'golygydd y mis' gwahanol ar gyfer pob rhifyn.

Nid yw'n syndod, mewn gwirionedd, i'r *Dinesydd* bwyso arno am gymorth o'r dechrau, oherwydd yr oedd yn awdur toreithiog ac yn olygydd profiadol. Ysgrifennodd lawer o gyfrolau ac erthyglau i blant a phobl ifainc ac i oedolion, gan gynnwys ei nofel i blant, *Losin y Dewin* (1988), y cyfeiriodd Rhodri Jones ati yn ei bennill uchod. Ac yn haeddiannol iawn, dyfarnwyd Gwobr Mary Vaughan Jones iddo yn 1994 'am gyfraniad arbennig i faes llyfrau plant yng Nghymru dros gyfnod o flynyddoedd'.

Pwyswyd yn drwm ar sgiliau ieithyddol a golygyddol W.J. gan y Cyngor Llyfrau. Golygwyd llawer iawn o gyfrolau ganddo, gan gynnwys y gyfres hir 'Enwogion y Byd' a gyhoeddodd Gwasg Cambria yn yr 1980au a'r 1990au; ac ef a olygodd gyfrolau Cyfansoddiadau a Beirniadaethau yr Eisteddfod Genedlaethol ar gyfer Eisteddfodau'r De rhwng 1990 a 2000.

Trosodd nifer o gyfrolau i'r Gymraeg, a lluniodd ddeunyddiau ar gyfer dysgwyr, gan gynnwys colofn reolaidd yn Saesneg yn y *Western Mail* yn nechrau'r 1990au yn dwyn y teitl 'Help Llaw: The column which gives Welsh learners a helping hand'. Ac ar ben hyn oll, ysgrifennai ddramâu a cherddi a sgriptiau ar gyfer y cyfryngau. Roedd W.J. yn sicr yn un ag 'inc yn ei waed', a dweud y lleiaf!

Ganed William John Jones yn Ysbyty Ystwyth yng ngogledd Ceredigion ar 16 Ebrill 1928. Gweithiai ei dad, Daniel Arthur Jones, i Moses Griffith, un o sylfaenwyr Plaid Cymru a thad yr Athro R. Geraint Gruffydd (a aned hefyd, gyda llaw, yn 1928). Roedd




*Cartŵn gan Cen Williams yn* Y Dinesydd*, Medi 1983, yn tynnu coes W. J. Jones am fod 'W.J.' arall o Geredigion, sef W. J. Gruffydd ('Elerydd'), newydd ei ethol yn Archdderwydd.*

Moses Griffith yn gyfarwyddwr cynllun dan y Fridfa Blanhigion yn Aberystwyth i wella tir mynydd ac roedd yn byw ym Mhwllpeiran yng Nghwm Ystwyth, un o ffermydd y cynllun. Yn ogystal â gweithio ym Mhwllpeiran, roedd gan dad W.J. ei dyrbin dŵr ei hun ar gyfer cynhyrchu trydan, ac ef oedd y cyntaf i gyflenwi trydan i Ysbyty Ystwyth a rhai o'r pentrefi cyfagos; ond bu farw'n sydyn yn 1940 yn 40 mlwydd oed, ac am flynyddoedd bu'r W.J. ifanc yn cynorthwyo ei fam weddw i ddarparu'r cyflenwad trydan i'r cymunedau hynny nes i'r Rhwydwaith Cenedlaethol gymryd y gwaith trosodd.

Wedi iddo raddio yn BA o Goleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth, yn 1950 a hyfforddi yno am flwyddyn arall i fod yn athro, dechreuodd W. J. Jones ar ei yrfa ym myd addysg yn Ysgol yr Eglwys yn y Borth, ger Aberystwyth, cyn mynd yn 1956 i Ysgol Gynradd Gymraeg Ynyscedwyn, Ystradgynlais, lle y bu'n brifathro nes cael ei benodi'n ddarlithydd yn y Gymraeg a Drama yn y coleg hyfforddi athrawon yng Nghyncoed yn 1963, a dechrau ar ei waith yno yn Ionawr 1964. Symudodd ef, ei wraig Enid (a fu farw yn 1989), a'u plant, Paul a Nesta, i Gaerdydd yr adeg honno, ac yng Nghaerdydd y treuliodd W.J. weddill ei fywyd, gan gyfrannu'n sylweddol i fywyd Cymraeg y ddinas dros flynyddoedd lawer, oherwydd nid ei lafur cariad gyda'r *Dinesydd* oedd ei unig gyfraniad i fywyd Cymraeg Caerdydd o bell ffordd. Yr oedd, er enghraifft, yn aelod o bwyllgor Cylch Llyfryddol Caerdydd rhwng 1988 ac 1999; ac ymhlith pethau eraill, roedd yn aelod yn Eglwys Dewi Sant ac yn un o ffyddloniaid y criw o gyn-ddisgyblion Ysgol Uwchradd Tregaron a fyddai'n cwrdd yn rheolaidd yn y Mochyn Du.

Fel y soniais uchod, roedd inc yng ngwaed W. J. Jones. Un o atgofion cynnar ei fab, Paul, oedd am ei dad yn pwnio'r teipiadur yn ddidrugaredd ar fwrdd coffi bychan yn yr ystafell fyw a'r rwber dileu yn tasgu i bob cyfeiriad; ac meddai Paul wrthyf, 'Roedd yn fendith i'r bwrdd bychan pan gafodd fy nhad deipiadur trydan!' A diddorol, gyda llaw, yw gweld W.J. yn cyhoeddi cyfrol yn 1960 yn dwyn y teitl *Llyfr Natur Paul a Nesta*.

Lluniodd Glyn Lewis Jones lyfryddiaeth o gyhoeddiadau awduron o Geredigion i lawr hyd at y flwyddyn 1964, a rhestrir ganddo bron i 150 o eitemau gan W. J. Jones (a ddefnyddiai weithiau hefyd y ffugenw 'Rhiannon Rhydderch') a ymddangosodd rhwng 1955 ac 1964. Cyhoeddodd W.J. o leiaf un gyfrol bob blwyddyn rhwng 1956 ac 1964, heb sôn am gyfraniadau mewn cyfrolau cyfansawdd ac erthyglau lu mewn cylchgronau, yn enwedig yn *Yr Athro*, *Blodau'r Ffair*, *Cymru* a *Cymru'r Plant*. Ni chynhwyswyd eitemau mewn papurau newydd yn llyfryddiaeth Glyn Lewis Jones, a byddai gwneud hynny wedi ychwanegu ymhellach at y rhestr o gyhoeddiadau W.J., oherwydd cyfrannai hefyd i *Baner ac Amserau Cymru* a phapurau eraill yn y cyfnod dan sylw. Yn wir, erbyn dechrau'r 1960au, roedd W.J. wedi dod yn ffigur cyhoeddus digon amlwg i gael ei gyfethol yn aelod o Lys Llywodraethwyr Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

Ac ni pheidiodd y ffrwd o gyhoeddiadau yn 1964 o bell ffordd, ond parhau i ddylifo'n egnïol weddill ei yrfa. Soniwyd uchod ei fod yn ysgrifennu dramâu. Mentrodd i'r maes hwnnw am y tro cyntaf wedi iddo gael ei annog i lunio drama ar gyfer cyngerdd Nadolig gan ei brifathro athrylithgar a hynod ddylanwadol, S. M. Powell (1878–1950), pan oedd yn ddisgybl yn Ysgol Tregaron. Ond mae'n werth ychwanegu i W. J. fod yn gynhyrchydd dramâu yn ogystal. Roedd hefyd yn llais cyfarwydd ar y radio am flynyddoedd.

Roedd W. J. Jones yn sgwrsiwr diddan, hwyliog a gwybodus, ac yn ddigon pendant ei farn; a dyma i gloi ddau ddyfyniad o ebyst a dderbyniais ganddo, i ddangos pa mor ddifyr y gallai fod.

I ddechrau, dyma ran o ebost a dderbyniais yn Chwefror 2008, wedi iddo fod yn darllen llyfr a ysgrifennais am y portread o Owain Glyndŵr mewn llenyddiaeth i lawr trwy'r canrifoedd; a dylwn egluro mai cyfeirio y mae W.J. yn y frawddeg gyntaf at Dafydd Rhys Jones (1877–1946), a aned yn y Wladfa ym Mhatagonia ac a fu'n brifathro arno yn ysgol Ysbyty Ystwyth:

> Deuai fy mhrifathro ysgol gynradd i o Batagonia. Roedd y straeon a gaem am y paith a'r piwma a'r Indiaid. Porth Madryn a'r Gaiman oedd y trefi. […] Doedd e ddim yn talu fawr ddim sylw i lenorion Cymru. Sylweddolaf hynny heddiw. Roedden ni'n darllen Llyfrau Darllen Prifysgol Cymru ac rwy'n cofio gwersi ar Owain Glyndŵr a'r stori amdano a 'Syr Lawrens Berclos'. Roedd rhywun wedi llunio cerdd yn y llyfr am y digwyddiad (ffug mae'n siŵr) ac rwy'n cofio'i hadrodd yn yr ysgol ac mewn cyngherddau ac eisteddfodau lleol. Dwy'i ddim yn cofio am un arwr arall o Gymro a ddaeth i wersi'r ysgol.

A dyma ran o ebost a dderbyniais ganddo yn Ionawr 2009, wedi imi gyfeirio mewn erthygl at Saunders Lewis:

> Ces i'r fraint o gwrdd â SL gyntaf pan own i'n ddeg oed. Fy nhad oedd yn gofalu ar ôl ei gar enfawr ac roedd yn ymwelydd cyson â Phwllpeiran (cartref Moses Griffith) lle roedd fy nhad yn gweithio. Digwyddwn fod yno gyda fy nhad un diwrnod pan oedd SL yno ac roedd fy nhad wedi cael cais i edrych ar rywbeth neu'i gilydd dan foned ei gar. Manteisiodd ar y cyfle i gyflwyno'i fab i un o enwogion y genedl ond down i ddim yn hoffi'r hyn a welwn: talcen rhy lydan, llygaid rhy dreiddgar a gwallt 'od'. Enciliais o'r ffordd yn bwdlyd a gwrthod ymateb i'w wên, er mawr siom i fy nhad. Wedi i SL fynd eglurodd ei fod yn ddyn mawr a'i fod wedi bod yn y jêl am losgi rhyw ysgol neu'i gilydd. Roedd hynny'n ddigon i mi. Dyn bychan oedd e, nid mawr ac i mi lle i ladron oedd carchar! Roedd *Comic Cuts* yn cadarnhau hynny!

Prin iawn oedd y sôn am W. J. Jones adeg ei farw ar 13 Mawrth 2019 – dim cyfeiriad yn *Y Dinesydd*, hyd yn oed – ond mae'n dda dweud fod mainc er cof amdano bellach ym Mharc y Mynydd Bychan, nid nepell o'i gartref yn 46 Heol Crystalwood, ac arni'r geiriau 'Dyn diwylliedig a gwladgarwr' ynghyd â chwpled o waith Dic Jones, 'Mae alaw pan ddistawo/ Yn mynnu canu'n y co.' A da iawn yw cael y cyfle hwn yn awr i gofio am ei gyfraniad cyfoethog i Gaerdydd a Chymru, a ninnau newydd gyrraedd y 500fed rhifyn o'r *Dinesydd*, y papur bro arloesol y cyfrannodd mor arwyddocaol i'w ffyniant am flynyddoedd lawer o'r dechrau'n deg yn 1973.

# Bwytai Merch y Ddinas



## Ychafi!

Lowri Haf Cooke

Cyfarchion mis Hydref! Ydy'ch arferion bwyta chi'n dechrau newid? Llai o salad o bosib, a mwy o gaserôls a chrymbls? Mae cymeriad George o'r gyfres gomedi Seinfeld yn dweud y cyfan ar fy rhan; *'I gotta focus. I'm shifting into soup mode*.' Does dim byd haws i goginio, na mwy maethlon yn fy marn i na phowlen o gawl cartre i ginio. Fy ffefryn i ar hyn o bryd yw'r cawl tomato a garlleg rhost; rhad, tymhorol, a blasus tu hwnt. Dwi hefyd wedi ail-gychwyn proses y bara surdoes y bues i'n ei bobi yn ystod y pandemig – ac mae fy nghorff yn ddiolchgar iawn.



***Nerys, Lowri a Carwyn***

Serch y ffaith mai colofn 'fwytai' yw hon, mae'n dda cael cydbwysedd mewn bywyd. Yn ariannol o leia, mae medru coginio i mi fy hun yn golygu y gallaf hefyd fwynhau ambell wledd yn un o fwytai Caerdydd a'r fro. Neu fynychu un o'r nifer o wyliau bwyd sy'n cael eu cynnal ledled Cymru yn ystod tymor yr hydref. Bues i'n ffodus i dderbyn gwahoddiad i siarad mewn sesiwn yng Ngŵyl Fwyd y Fenni yn ystod mis Medi, ac am wledd o brofiad oedd hwnnw. Testun y sesiwn – dan ofal y cogydd Nerys Howell, yr hanesydd Carwyn Graves a minnau – oedd 'Geiriau Coll Iaith Bwyd Cymru'. Glywsoch chi erioed am eiriau fel shincin, bara planc, teisen ddim a dinca fale – neu tybed oes gan aelodau o'ch teulu chi rysait hynafol ac unigryw i chi?

Talwyd teyrnged yn ystod y sesiwn i enw mawr yn hanes bwyd Cymru; S. Minwel Tibbot, sef hanesydd ac anthropolegydd yn Amgueddfa Werin Sain Ffagan o'r 1960au ymlaen, a wnaeth gymaint i gofnodi termau bwyd a ryseitiau rhanbarthol. Da chi, cysylltwch â mi (lowri.cooke@live.co.uk), os oes enghreifftiau gyda chi, oherwydd byddai'r tri ohonom yn hoffi gwneud rhagor i ddathlu'n treftadaeth bwyd Cymreig. Gwyliwch y gofod o ran hynny...

Yn ôl at y bwytai, a dyma ystyried carfan o'r boblogaeth sy'n cael cryn hwyl arni ar hyn o bryd ar ddechrau'r tymor newydd. Am bwy ydw i'n sôn gyfeillion? Wel, myfyrwyr y Brifysgol, yn bur naturiol! Gwyn eu byd... a sôn am newid byd! Mae'n gam mawr i hedfan y nyth, a gwneud penderfyniadau bwyta annibynnol. Yn amlwg, gellir glynu at arlwy ffreutur y coleg neu'r neuadd breswyl, ar gyfer brecwast, cinio a swper. Ond mae na hefyd atyniadau dieflig, sori, dinesig fel Woodfield Road yn bownd o demtio ar brydiau, heb sôn am wasanaethau pryd-ar-glud fel *Deliveroo* ac *Uber Eats*.

Es ati felly i ymchwilio i'r maes, gan ymweld â Heol Woodfield a'r cyffiniau. Roedd hi'n wythnos y glas ar y pryd, ac oedd, roedd hi fel Sodom a Gomora. Ond dyna ddigon am fy noson i! Jôc. Ro'n i'n falch i weld myfyrwyr yn gofalu am ei gilydd, wrth i bethau fygwth mynd dros ben llestri. Allai *riportio* yn bendant mai un ffasiwn bwyd poblogaidd gyda'r 'pethe ifanc' yw'r cyw iâr wedi'i ffrïo, a'i weini'n danbaid. Un rheswm am hyn yw dylanwad rhaglenni youtube poblogaidd, fel Hot Ones gyda Steve Evans a Chicken Shop Date gydag Amelia Dimoldenberg. ('Pwy?!' Medde chi? A dydw innau chwaith heb wylio pennod ar ei hyd, ond mae clipiau bachog ohonynt yn ddigon poblogaidd ar y cyfryngau cymdeithasol, fel bod pawb a'i nain erbyn hyn yn ymwybodol ohonynt.)

Dyma felly benderfynu cymharu dau fwyty 'cyw iâr tanbaid' er budd darllenwyr awchus *Y Dinesydd*. Gallai'ch gweld chi nawr yn glafoerio... ond pwyll pia hi, gyfeillion; mae na ystyriaethau iechyd a diogelwch yma!

Yn gyntaf – 'Ychafi', sef stondin boblogaidd yng nghanolfan bwyd-y-stryd Sticky Fingers, Heol Richmond, Y Rhath – oedd yn arfer bod yn Cardiff Video Centre! (Dyddie da!). Wel serch yr enw dadleuol, ces i brofiad hynod ddymunol dros flwch o ddarnau cyw iâr wedi'u ffrio'n dyner, blas Nashville Hot (oedd ddim yn rhy boeth!), a gafodd ei weini â saws a phicls. Rhagorol. Daw'r cogydd Chris Tagg, o Dredelerch a Phontprennau, ond daw Enfys, ei fam-gu, o Lanelli. Iddi hi mae'r diolch am enw ei fusnes, diolch i'w defnydd cyson – ac angerddol – hi o'r ebychiad 'ych a fi'! Ac yn debyg mewn ffordd i effeithiau 'reverse psychology', meddyliais droeon wrth oedi mewn traffig o flaen yr adeilad bod yn rhaid i mi brofi arlwy 'Ychafi' dros fy hun! Mae hefyd yn derm perffaith i gyfleu'r ffasiwn bwyd cyfoes am fwyd 'drwg' a 'budr' sy'n orlawn o bechodau – fel yn achos stondin fwyd boblogaidd 'Brwnt' ar y Parrog yn Nhrefdraeth dros fisoedd yr haf. Cofiwch felly am ganolfan Bysedd Gludiog, chwi aelodau Eglwys y Crwys (ac eraill!) pan fyddwch awydd blas bach tanbaid ar y Saboth. A diolchwch i Enfys o Lanelli am yr enw!

A'r ail gyrchfan yw cyw iâr tanbaid Fowl and Fury, 99 Heol Wyeverne, y Waun Ddyfal (yn yr union fan y safodd bwyty cyfoes Cymreig The Armless Dragon ar droad y Mileniwm) – a hefyd Heol Dwyreiniol y Bontfaen, Treganna. Yn achos y cwmni hwn RHAID cymryd yr enw o ddifri, oherwydd mae na rybuddion di

-ri am wres y sbeisys, sy'n ddiarhebol o danbaid. Ges i fy siarsio i fynd yno gan Siôn o Sesiwn Gymraeg tafarn yr Albany, oedd yn canmol y profiad i'r entrychion (a gyda llaw, mae Siôn yn feddyg). Yna pan soniais wrth fy chwaer, dyma hi'n troi ata i â golwg ddifrifol, gan fy nghynghori i ddewis y lefel mwyaf sylfaenol o sbeisys – hynny yw, '*mild*' – gan i lefel 2, yn ei geiriau ei hun, doddi haenen uchaf ei gwefus. A dyma ferch sy'n joio cyri Monipuri! Dyna chi felly wedi eich rhybuddio... peidiwch â meiddio bygwth y gyfraith ar *Y Dinesydd*, pan deimlwch chi enamel eich dannedd yn erydu ar unwaith mewn cwmwl niwclear o gynddaredd.

Es i eto am y cyw iâr barbeciw Nashville - a sglodion Cajun tro ma, i gyd-fynd â'r thema barbeciw 'deheuol'. I fod yn deg, roedd hwnnw hefyd yn bryd dymunol dros ben - diolch byth i mi fynd am lefel 1! Mae gwahaniaeth rhwng y geiriau 'poeth', a 'boiling poiling' – chwedl Delyth a Bethan o Ibiza Ibiza (ar gael i'w wylio nawr ar S4Clic)! Os oes rhaid i mi ddewis rhwng y ddau gwmni cyw iâr tanbaid, wel Ychafi sy'n mynd a hi, yn bennaf er cof am S. Minwel Tibbot, a'r defnydd creadigol o'r iaith Gymraeg ym maes bwyd sy mor boblogaidd a phobol ifanc!

Beth mae nhw'n ei ddweud? Yr hen a wŷr ond yr ifanc a dybia? Wel, yn yr achos yma, yr ifanc a wŷr, a'r hen sy mewn peryg o ffrwydro eu pennau, os na fyddan nhw'n ofalus. Ewch felly, da chi, am hwyl a sbri - ond peidiwch anghofio eich blwch cymorth cyntaf.

Ychafi, Sticky Fingers, 199-201 Heol Richmond, Y Rhath CF24 3BT (Mercher-Sul)

Fowl and Fury, 99 Wyeverne Road, y Waun Ddyfal CF24 3BZ a hefyd 76 Heol Dwyreinol y Bontfaen, Treganna CF11 9DW.

*Gwledd, Bwytai Cymru a Caffis Cymru* gan Lowri Haf Cooke, i gyd ar werth o'ch siop lyfrau lleol neu www.gwales.com

---

# Urdd Caerdydd a'r Fro




**Gwyliau Haf 2025**

Yn ystod y gwyliau Haf, cynigwyd llwyth o weithgareddau amrywiol o fewn yr adran ieuenctid a chymuned. Cynhaliwyd cyfres o weithdai Celf a Chrefft yn Nhreganna a'r Eglwys Newydd, gan roi llwyfan i bobl ifanc ddatblygu eu sgiliau creadigol. Yn ogystal, cynhaliwyd diwrnodau hwyl o weithgareddau amrywiol ym Mhenarth, y Barri a Gabalfa i bobl ifanc yr ardal. Un o'r uchafbwyntiau oedd sesiwn padl fyrddio yn y Barri i oedrannau cynradd ac uwchradd ar lannau Canolfan Ddŵr y Barri. Yn yr adran chwaraeon, croesawyd 834 o gyfranogwyr i 40 sesiwn yn ystod ein gweithgareddau Haf. Cynhaliwyd sesiynau pêl-rwyd ac aml chwaraeon ar draws y ddinas, braf oedd gweld niferoedd uchel yn mwynhau trwy chwarae yn y Gymraeg.

**Hanner tymor yr Hydref**

Yn ystod gwyliau'r ysgol byddwn yn cynnal amrywiaeth o glybiau chwaraeon, gwersylloedd dros nos, gweithdai a diwrnodau hwyl yn y brifddinas. I gofrestru ar gyfer ein gweithgareddau ewch i https://gweithgareddau.urdd.cymru/

**Gweithgareddau eraill**

Clybiau chwaraeon wythnosol

Rydym ni'n cynnal clybiau chwaraeon sy'n cynnig gweithgareddau rheolaidd ar ôl ysgol ac ar benwythnosau, o sesiynau arbenigol mewn gymnasteg i rygbi, pêl-rwyd, pêl-droed a mwy, a'r ddarpariaeth yn allweddol i gryfhau'r defnydd o'r Gymraeg y tu allan i oriau ysgol yn ogystal â bwydo timoedd chwaraeon lleol.

**Gwirfoddoli a hyfforddiant**

Mae'r Urdd wedi cynnig cyfleoedd hyfforddiant i wirfoddolwyr lleol, gan gynnwys cwrs cymorth cyntaf a hyfforddiant arweinyddiaeth ieuenctid. Mae'r cyfraniad gwirfoddol yn hanfodol i gynnal gweithgareddau'r Urdd yn y gymuned ac mae ein diolch yn fawr i'n holl wirfoddolwyr!

**Cysylltwch â ni**

Am ragor o wybodaeth neu i ymuno â'r Urdd yng Nghaerdydd, ewch i urdd.cymru neu cysylltwch â:

Elen Evans, Swyddog Cymunedol Caerdydd a'r Fro: Elenevans@urdd.org

Morgan Lewis, Swyddog Datblygu Chwaraeon Caerdydd a'r Fro: morganlewis@urdd.org
Instagram - @Urdd_caerdyddarfro
Facebook – Urdd Caerdydd a'r Fro

# NEWYDDION O'R EGLWYSI

## EBENESER




**Llongyfarchiadau...**

...i Catrin Roberts ar ddathlu ei phenblwydd yn 70 oed ar 3 Awst

...i Mair Hughes ar ddathlu ei phenblwydd yn 95 oed ar 3 Medi

...i Ifan a Catrin Roberts ar ddathlu priodas aur ar 20 Medi.

**Cydymdeimlad**

Cydymdeimlwn yn fawr iawn gyda Joy Dyer a'r teulu yn eu profedigaeth. Bu farw brawd Joy yn ddiweddar ac mae hiraeth dirfawr ar ei ôl.

**Penblwydd Hapus...**

...arbennig iawn i Mair Evans, Maesglas yn 103 oed ar 1 Hydref.

**Cwrdd Gweddi**

Ar nos Lun 23 Medi daeth Gwilym Jeffs atom i rannu am waith Angor a gweledigaeth y tîm yn ystod y misoedd nesaf. Dyma destun gweddi. Gweddïo hefyd dros Wlad yr Iorddonen lle mae erlid yn digwydd. Diolch i Gwilym.

**Criw Casglu Sbwriel a'r Gorlan Glyd**

Ar nos Fercher, 3 Medi aethom fel criw i fwynhau pryd efo'n gilydd yn Pizzeria Villaggio, yr Eglwys Newydd ar ddechrau tymor newydd. Cawsom noson hwyliog, gyda chwis byr a gwobr i'r un sydd wastad ar amser ac yn mynd ati'n frwd i olchi llestri. Ifan Roberts ydy hwnnw.



**Bytholwyrdd**

Ar fore dydd Gwener 29 Awst aeth criw Bytholwyrdd ar y trên i'r Fenni. Cafwyd cyfle i ymweld â'r farchnad yng nghanol y dref, roedd yno stondinau amrywiol yn gwerthu cynnyrch cartref. Yna bu pawb yng ngwesty'r Angel am ginio a sgwrs. Cafwyd diwrnod difyr yn cymdeithasu! Diolch i Enfys a Lis am drefnu.

**Pererindod**

Ar ddydd Sul, 14 Medi aeth criw da ohonom ar bererindod i Drefeca. Er gwaetha'r glaw roedd yna awyrgylch braf a hwyliog. Cafwyd croeso gwresog gan Wayne Adams, a chyflwyniad gwych ar y coleg. Ar ôl cinio bendigedig, ymlaen i Gapel y Plough, Aberhonddu. Cafwyd croeso a chyflwyniad gan Jeff Williams a sgwrs gan Elwyn Moseley, oedd yn aelod yno yn ei arddegau a'i dad, Luther Moseley, yn weinidog ar y capel am nifer o flynyddoedd. Yno hefyd y priodwyd Elwyn a'r diweddar Annick ar 20 Ebrill 1968.

## EGLWYS Y CRWYS

**Cyfarchion**

Wedi treulio amser yn yr ysbyty yn derbyn profion mae'n dda deall bod John Lloyd wedi derbyn newyddion da ac wedi dychwelyd i'w gartref. Pob dymuniad da iddo.

Braf yw dweud bod Bob Roberts yn parhau i wella yn dilyn ei driniaeth ym mis Gorffennaf. Cam wrth gam Bob a brysia'n ôl atom.

**Llongyfarchiadau** cynnes i Bethan Rhys Roberts ar ennill Gwobr Siân Phillips BAFTA CYMRU am waith nodedig fel Newyddiadurwraig a Chyflwynydd. Rydym yn falch iawn o'i llwyddiant yn y Crwys.

**Llongyfarchiadau** i un o 'hen' blant y Crwys, Gwilym Roberts, ar gael ei anrhydeddu ar achlysur dathlu Cylch Meithrin Rhiwbeina yn 60 oed. Cynhaliwyd diwrnod arbennig a gosodwyd plac yn nodi'r digwyddiad ar y wal ym man cyfarfod y Cylch ym Maes y Deri. Cadeirydd cyntaf Cylch Meithrin Rhiwbeina yn 1965 oedd ein Pen Blaenor ni yn Y Crwys sef Emyr Jenkins. Diolch i'r ddau am eu gweledigaeth. Teg nodi bod y Cylch wedi agor cyn sefydlu'r Mudiad Ysgolion Meithrin yn 1971.

**Y Gymdeithas**

Er gwaetha'r tywydd gwlyb a diflas daeth criw da i fwynhau'r Te Mwyar Duon yng nghartref Arthur a Diane Evans yn yr Eglwys Newydd. Llond gwlad o fwyd a chyfle i fwynhau sgwrs. Roedd cyfle hefyd i brynu afalau, marmaled cartref, jam a siytni a gwnaed elw o £400 tuag at Gronfa'r Eglwys. Diolch i bawb a gyfrannodd; i Arthur a Diana am agor eu cartref ac i Cerian Angharad am yr holl drefniadau. Edrychwn ymlaen at y cyfarfod ar 10 Hydref gyda 'Chwedl a Chân' yng nghwmni Mair Tomos Ifans. Beth am ymuno â ni – bydd croeso cynnes i bawb.

**Yr Ystafell Fyw**

Mae'r Ystafell Fyw wedi hen gartrefu bellach yn Y Crwys ac edrychwn ymlaen at yr achlysur o lansio'r Ystafell Fyw ar ei newydd wedd bnawn Sul, 26 Hydref.

**Trefn yr Oedfaon**, am 10.30 a 6.00 o'r gloch

Hydref 12
Bore: Mr Thomas Williams
Prynhawn am 3.00 p.m. Eglwys Ebeneser

Hydref 19
Bore: Gwasanaeth Diolchgarwch yr Ysgol Sul
Hwyr: Mr Thomas Williams

Hydref 26
Bore: Mr Thomas Williams
Hwyr: Mrs Margaret Jones

Tachwedd 2
Mr Thomas Williams; Oedfa Gymun yn y bore

## SALEM, TREGANNA



**Priodas**
Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Megan a Michael a briododd yn Salem ddydd Sadwrn 30 Awst.

**Croeso**
Rydym yn falch o weld criw da o blant a phobl ifanc wedi dychwelyd, a rhai wedi dechrau o'r newydd, yn yr Ysgol Sul. Cofiwch fod croeso mawr i bawb yn Salem bob bore Sul am 10.30.

**Gweithgareddau eraill**
Adran yr Urdd Salem - I blant oed cynradd, does dim rhaid i chi fod yn dod i'r capel bob dydd Sul – mae'r adran yn agored i bawb. Cynhelir y sesiwn nesaf nos Iau 23 Hydref rhwng 6.00 a 7.00, ac yna bob pythefnos.

**Clwb Brecwast** i rieni a phlant / babanod o dan oed meithrin - Bore Mercher 22 Hydref, 5 Tachwedd a 19 Tachwedd rhwng 9.45 a 11.15.

**Clwb Coffi** – Bore Gwener 10 Hydref a 14 Tachwedd rhwng 11.00 a 12.00. Croeso i bawb ymuno am goffi, sgwrs a chwmnïaeth.

**Clwb Llyfrau** - Cynhelir y cyfarfod nesaf nos Fawrth 9 Medi am 7.30. Y llyfr dan sylw yw "When the Cranes Fly South" gan Lisa Ridzén.

**Clwb Oedolion AY** – bob nos Fercher rhwng 5.00 a 6.30. Cofiwch archebu lle drwy Fenter Caerdydd.

**Clwb y Bobl Ifanc** - Cofiwch fod croeso i bob person ifanc oedran uwchradd ddod i Glwb y Bobl Ifanc. Cynhelir cyfarfod nesaf y flwyddyn hon nos Wener 26 Medi yn y festri.

Os hoffech ragor o fanylion, dilynwch ni ar Facebook, neu ewch i wefan Salem: Capelsalem.org.

## BETHEL, PENARTH

Dymunwn yn dda i Bryan wrth iddo symud ei gartref o dŷ i fflat ym Mhenarth.

Dechreuwyd ein tymor ar 7 Medi dan arweiniad ein gweinidog. Cododd ei destun, 'Arglwydd, achub fi', o'r adroddiad ym Mathew (14, 22-33) o'r hanes am Iesu'n cerdded ar y dŵr a chynnig aflwyddiannus Pedr i wneud yr un modd. Cymhwyswyd y testun i'n hymateb ni i 'stormydd' bywyd. Mae'r un hanes ym Marc (6, 45-52) ac yn Ioan (6, 15-21) ond heb gyfeiriad at Bedr.

Ar Sul 14 Medi dan ofal Sian Meinir, cawsom ein harwain at ddehongliad o Iesu yn gostegu storm ar y môr yn y darlleniad o Farc (4, 35-41). Yn ei dull priodol cawsom weld dewis Sian o luniau gan artistiaid enwog o'r hanes. Bu hyn yn gyfrwng effeithiol i ni ystyried lle Iesu yn gostegu 'stormydd' bywyd. Mae'r un hanes ym Mathew (8, 23-27) a Luc (8, 22-25).

Bu'r oedfa ar 21 Medi o dan ofal aelodau. Seiliwyd y myfyrdodau ar ddetholiad o gynnwys Breiniol Wasanaeth gan Maurice Loader (1929 – 2017); bu ef yn weinidog uchel iawn ei barch ar eglwysi Annibynnol ac yn berson hynaws iawn. Mae Breiniol Wasanaeth yn drysor o ysgrifau, gweddïau, emynau a charolau. Diolch i Rhodri, Emma, Jayne, Elinor ac Iris.

## BETHLEHEM, GWAELOD-Y-GARTH

Oedfaon / Ysgol Sul [YS] Hydref (10:30 a.m.)

5 – Oedfa Gymun - Delwyn Siôn [YS Cynradd / Uwchradd]
12 - Diolchgarwch yr Ysgol Sul
19 - Parchedig Robert Owen Griffiths
26 – Sul Adferiad - Wynford Ellis Owen [dim YS]

Rwy'n ffodus bob bore Gwener i gychwyn ar daith gerdded ar hyd llwybrau'r fro. Byd natur sy'n swyno'r criw – eleni mae'r llwyni a'r coed yn fwy ffrwythlon nag a welwyd ers tro.

Mewn erthygl ddiweddar tynnwyd sylw at '*mast year*'*– blwyddyn pan fydd coed fel derw, bedw a'r gastanwydden yn cynhyrchu cnwd sylweddol o ffrwythau a chnau. [*Mae Geiriadur Bruce yn cynnig mesen a cneuen (am mast) yn Gymraeg.]

Digwyddiad bob rhyw 5 i 10 mlynedd yn ôl yr arbenigwyr:- "Mae'n gostus, o ran ynni, i'r coed gynhyrchu cnau a hâd ar unrhyw amser oherwydd gwerth caloriffig uchel y ffrwyth, a'u bod yn llawn maeth. Felly mae tu hwnt i'w gallu i gynhyrchu cnwd enfawr bob blwyddyn.

Os mai ychydig o hâd a gynhyrchir, byddai cyfran uchel o hwnnw yn cael ei fwyta gan y bywyd gwyllt. Ond os bydd y coed yn arbed ynni o flwyddyn i flwyddyn, bydd digon ar gael i gynhyrchu cnwd mawr yn achlysurol, gan sicrhau y bydd peth ohono yn egino er sicrhau parhad y rhywogaeth."

Mae'r erthygl yn cydnabod nad yw'n wybyddus sut y mae'r coed hyn yn cyd-lynu eu bwriad i gynhyrchu eu cnydau mawr o dro i dro!

"Yna dwedodd Duw, "Dw i eisiau i laswellt dyfu o'r tir, a phob math o blanhigion sydd â hadau ynddynt nhw, a choed ffrwythau. Bydd yr hadau ynddyn nhw yn gwneud i fwy a mwy o'r planhigion gwahanol dyfu. [Genesis 1:11]

Dwedodd Duw, "Edrychwch. Dw i wedi rhoi'r planhigion sydd â hadau a'r ffrwythau ar y coed i gyd, i fod yn fwyd i chi" [Genesis 1:29]

## BETHEL,RHIWBEINA

Ar 7 Medi cawsom wasanaeth cyntaf y tymor newydd ar ôl seibiant ym mis Awst, a braf oedd croesawu Mrs Helen Jones i'r pulpud. Yn ystod y mis cawsom hefyd wasanaethau dan ofal ein gweinidog, y Parch. Evan Morgan, Y Parch. Gwilym Wyn Roberts a Dr Eirian Dafydd.

Cynhelir digwyddiad arbennig ar 20 Medi ar safle'r capel i ddadorchuddio plac i gofnodi bod Cylch Meithrin Rhiwbeina wedi bodoli ar safle'r capel ers 60 o flynyddoedd. Bu dathliad arall ym 2019 i ddathlu 60 o flynyddoedd ers cychwyn y Cylch Meithrin ym 1959 ar safle arall yn Rhiwbeina. Diolch i Gwilym Roberts am ei frwdfrydedd dros agor y Cylch cyntaf hwnnw ac am ei ymroddiad at yr achos ar hyd y blynyddoedd. Mae Gwilym yn aelod ffyddlon o Gapel Bethel ac yn canu'r organ yn y gwasanaeth bob bore Sul.

Mae gwasanaethau bob bore Sul yn cychwyn am 10.15 ac mae croeso cynnes i bawb. Bydd yr Ysgol Sul yn ail-ddechrau ym mis Hydref.

## ANGOR, GRANGETOWN

Rydym wedi hen arfer a chlywed am eglwysi yn cau eu drysau am y tro olaf – ond mae'n hyfryd medru rhannu am gynulleidfa Gymraeg newydd yn ein prif ddinas.

Mae Angor bellach wedi bod yn cynnal cyfarfodydd yn Grangetown ers bron i bum mlynedd. Mewn amryw o wahanol leoliadau: caffi, canolfan gymunedol, a bellach wedi ymgartrefu yn adeilad Bay Church ar Corporation Rd.. Cynulleidfa a gwaith yn deillio o Ebeneser, Caerdydd ydy'r fenter a diolchwn am eu cefnogaeth a'i hanogaeth ar yr antur!

Caru Duw, caru'n gilydd, caru Grangetown yw ein nod. Mae croeso mawr i unrhyw rai ymuno gyda ni ar ail, trydydd neu bedwaredd Sul y mis am 4.00yh. Mae'r oedfaon yn edrych fel tase chi'n disgwyl (heblaw bod paned i ddechrau), addoliad (cymysgedd o emynau hen a newydd), gweddi, a gwrando ar bregeth yn esbonio'r beibl ac Ysgol Sul i'r plant. Mae ein cyfarfodydd yn reit anffurfiol - does dim ots os mae 'na blant yn cadw sŵn a gewch chi sipian eich paneidiau a bwyta'ch bisgedi yn ystod y bregeth pe dymunech. Mae trydydd Sul y mis yn edrych yn wahanol wrth i ni gyfarfod i fwyta pryd ac annog ein gilydd.

Cawsom ni oedfa arbennig prynhawn Sul 28ain o Fedi yn comisiynu Gwil Jeffs i'r gwaith fel arweinydd tîm Angor. Roedd hi'n hyfryd addoli a dathlu fel mae Duw wedi bod yn ffyddlon i'r gwaith hyd yn hyn ac i edrych ymlaen i'r dyfodol.

Credwn nad yw Duw wedi anghofio am Gymru a bod ei neges o gariad a gras yr un mor berthnasol i ni yn 2025 ac oedd yn 1905. Edrychwn 'mlaen i weld fel bydd Duw yn arwain y gwaith yn y blynyddoedd i ddod.

Mae modd cysylltu drwy Instagram: (angorgrangetown) Ebost: angorgrangetown@protonmail.com

## TABERNACL, YR AIS

**Llwyddiannau academaidd**

Cyd-ddathlwn â theuluoedd yr eglwys yn llwyddiant eu plant yn arholiadau allanol eleni, a dymuno pob boddhad i'n pobl ifanc yn eu gyrfaoedd, boed mewn swydd, prentisiaeth, Chweched Dosbarth, coleg neu brifysgol.

Cyd-lawenhawn hefyd yn ein graddedigion newydd:

Osian Williams, Addysg yng Ngholeg y Drindod Dewi Sant, Caerfyrddin, lle enillodd Wobr Goffa Norah Isaac, gwobr a gyflwynir i'r myfyriwr a gafodd y canlyniad gorau yn asesiad Tystysgrif Sgiliau Iaith Gymraeg y coleg ac a wnaeth bob ymdrech i hybu'r defnydd o'r iaith.

Gruff McVeigh, deintyddiaeth ym Mhrifysgol Queens, Belfast.

Raegan McVeigh, y Gymraeg ac ysgrifennu creadigol ym Mhrifysgol Bangor.

Lucie Rhiannon, Eidaleg a Ffrangeg, Prifysgol Caerdydd.

Rhys Thomas, cyfathrebu ac entrepreneuriaeth busnes, Prifysgol Caerwysg.

Gwenllian Evans, y gyfraith, Prifysgol Caerdydd.

**Yr Orsedd**



Urddwyd Bill Davies â'r wisg las i Orsedd Beirdd Cymru ar ddydd Llun cyntaf Awst. Ei enw barddol yw Bill o Bensyflog. Cydnabyddwyd ei gyfraniad i'r genedl drwy ei waith gydag eisteddfodau lleol a'r Eisteddfod Genedlaethol ers blynyddoedd lawer, a hynny'n parhau yn rhinwedd ei swydd fel is-gadeirydd Cymdeithas Eisteddfodau Cymru. Cafodd yrfa ddisglair ym maes adnoddau dynol tra'n gweithio gyda nifer o sefydliadau blaenllaw yng Nghymru, heb anghofio ei waith diflino gydag Undeb Bedyddwyr Cymru. Estynnwn ein llongyfarchiadau gwresog i Bill, a chydlawenhawn gyda Ruth, Rhys, Branwen, Twm, Gruff a'r teulu cyfan.

**Yr Archdderwydd**

Ddiwedd Gorffennaf trefnwyd noson gan Barddas i hyrwyddo cyfrol newydd o farddoniaeth gan Mererid Hopwood, *Mae*. Cafwyd cyflwyniadau cerddorol o'i cherddi — cerdd dant gan gôr Ysgol Treganna a chyfansoddiad Euros Rhys gan Gôr Bryn Owain. Fe swynwyd y gynulleidfa wrth wrando ar Mererid yn darllen ei cherddi ac yn egluro cefndir

ambell un hefyd. Hyfryd oedd clywed am rai o'r phrofiadau yn yr ysgol Sul, yn arbennig ym mhantomeimiau Gwyn Tudno ac Arwel Hughes.

## EGLWYS GATHOLIG TEILO SANT

Mae'r Offeren yn cael ei dathlu yn Gymraeg ar Sul olaf pob mis yn Eglwys Teilo Sant, Yr Eglwys Newydd, CF14 1AD am 4.30 y prynhawn. Croeso cynnes i bawb.

Mae'r Tad Matthew Roche Saunders yn Gyfarwyddwr Ieuenctid i Archesgobaeth Caerdydd-Mynyw a chawn adroddiad ganddo o'i brofiad yn arwain pererindod o bobl ifanc i Rhufain yn mis Awst eleni.

Fel rhan o ddathliadau Blwyddyn Jiwbilî Gobaith, gwahoddwyd Catholigion ifanc o bob cwr o'r byd i gasglu ym mis Awst yn Rhufain, i gyfarfod â'r Pab Leo ac i ddathlu'r 'Jiwbilî Ieuenctid' gyda'n gilydd. Ymunodd ein grŵp o 34 o bererinion o Archesgobaeth Caerdydd-Mynyw â dros filiwn o rai eraill, gan ysbrydoli ein gilydd a theimlo galwad dyner yr Arglwydd i fynd yn ddyfnach yn ein hunaniaeth fel ei ddisgyblion yng nghanol y byd. Yn yr Offeren olaf a ddathlwyd gan y Pab Leo, fe'n hanogodd gyda'r geiriau canlynol: 'Mae'n wirioneddol brydferth, yn enwedig yn ifanc, i agor eich calonnau'n llydan, gan ganiatáu i Iesu ddod i mewn, a chychwyn ar yr antur hon gydag ef tuag at dragwyddoldeb.'

Mae'r syniad o filiwn o bobl i gyd yn yr un maes yn eithaf anodd ei ddeall - wrth edrych o gwmpas, roedd yn ymddangos fel cefnfor o bobl ifanc, pob un wedi ymgynnull i ofyn eu cwestiynau mawr eu hunain, ac i ystyried beth mae eu ffydd yn Iesu yn ei olygu i'w bywydau. Fodd bynnag, daeth miliwn o bobl yn syniad llawer mwy pendant pan geisiom ni i gyd fynd ar yr un trên yn ôl i'r ddinas! Roedd y ciw yn hir iawn, ond wedi'i drefnu'n dda iawn gan heddlu'r Eidal. Gwasgarodd y dorf yn y pen draw, a dychwelom i'n gwledydd ein hunain, gan ddod â'r digwyddiad llawen hwn adref yn ein meddyliau a'n calonnau.

Offeren: 26 Hydref, 4.30pm Eglwys Teilo Sant, Yr Eglwys Newydd.

Cyswllt: carys@caerdelyn.com

## EGLWYS MINNY STREET

www.minnystreet.org
@MinnyStreet
Gweinidog: Y Parchedig Owain Llŷr Evans

Bu mis Medi yn brysur ar y Sul ac yn ystod yr wythnos. Daeth anogaeth gref yn ystod y mis gan ein Gweinidog i bob un ohonom ystyried beth y gall ei gynnig i'r eglwys. Croesawyd neges obeithiol y Parchedig John Roberts yntau yn ein Gŵyl Flynyddol. Bu'r wibdaith flynyddol yn ystod mis Medi eto yn llwyddiant – y tro hwn i sir Benfro. Er gwaetha'r glaw, llwyddwyd i ymweld â sawl lleoliad o ddiddordeb crefyddol, diwylliannol a hanesyddol ... a mwynhau.

**Oedfaon y Sul a'r Ysgol Sul**
Edrychwn ymlaen at arweiniad ein Gweinidog yn oedfaon 5 (oedfa gymun yn yr hwyr), 12 (bore) ac 19 Hydref. Prynhawn Sul, 12 Hydref, byddwn yn ymuno yng Ngŵyl Bregethu Eglwys Ebeneser. Byddwn yn croesawu'r Parchedig Denzil John, Caerffili i arwain yr addoliad ddydd Sul, 26 Hydref. Bydd yr Ysgol Sul yn cyfarfod yn ystod oedfaon bore Sul 5, 19 (gan gynnwys Ysgol Sul i'r plant hŷn) a 26 Hydref a bydd sesiwn PIMS am 17:00 ar 5 Hydref.

**Gweithgarwch y Mis**
Canolbwynt cyfarfodydd Bethania y tymor hwn fydd ein bywyd defosiynol. Ynddynt, bydd cyfle i ddarllen salm, i wrando ar gyflwyniad gan ein Gweinidog ar elfen o'r bywyd defosiynol ac i drafod ac ystyried arfer dda. Cynhelir y cyfarfod nesaf yng nghartref aelod nos Fawrth, 7 Hydref. Cynhelir yr ail o gyfres o gyfarfodydd rhithiol misol *Zoominny* dan arweiniad ein Gweinidog nos Fawrth 21 Hydref.

Yn dilyn y swper cynhaeaf ddiwedd mis Medi, bydd cyfarfodydd y Gymdeithas yn ailgychwyn gyda dau gyfarfod yn ystod y mis: 14 Hydref, Noson yng nghwmni Sara Esyllt a Catrin Heledd; a 28 Hydref, Y Prifardd Jim Parc Nest yn trafod ei gyfrol ddiweddaraf, *Y Caeth yn Rhydd*.

Bydd cyfle i fwynhau cwmni ein gilydd mewn bore coffi (2 Hydref), yn ein Koinônia misol (19 Hydref), yn wythnosol wrth gwrdd i gael paned, clonc a thro o gwmpas y cronfeydd dŵr ac, am y tro cyntaf, yn ein Clwb Crefftau a fydd yn cyfarfod ar 9 Hydref yng nghartref aelod.

## YR EGLWYS YNG NGHYMRU

**Yr Eglwys Gadeiriol, Llandaf**

Gwasanaeth y Cymun Bendigaid bob bore Iau am 9.30 o'r gloch. Coffi/Te a chlonc i ddilyn ym mhentref Llandaf.

Trefnwyd cyfres o ddigwyddiadau cerddorol yn ystod mis Hydref - cyngherddau tan olau cannwyll, teyrngedau i sêr cerddoriaeth boblogaidd a ffilm, a chyfle i chwarae organ yr Eglwys Gadeiriol.

Cysylltwch trwy wefan yr eglwys: www.llandaffcathedral.org.uk/cy/

**Eglwys Sant Luc**, Parc Cimdda / Victoria, Treganna

Gwasanaeth y Cymun Bendigaid, 12 Hydref 2025 am 4 o'r gloch. Coffi/Te a chlonc i ddilyn.

**Eglwys Santes Catherine**, Pontcanna (ger Siop Caban)

Gwasanaeth y Cymun Bendigaid, 26 Hydref am 4 o'r gloch. Coffi/Te a chlonc i ddilyn.

Bendith a thangnefedd.

## YR EGLWYS EFENGYLAIDD

**Dymuniadau gorau**
Dymunwn yn dda iawn i Iolo Jones wrth iddo ddechrau ym mhrifysgol Bryste. Cofiwn hefyd am Morris, Elliw a Rhodri wrth iddynt barhau â'u cyrsiau prifysgol. Cofiwn hefyd am Eseta a Steffan wrth iddynt symud o'r ysgol gynradd i'r uwchradd.

**Bore Siarad Cymraeg**
Sadwrn 11 Hydref yn Hyb Rhiwbina (CF14 6EH). Dewch i wrando ar Meirion Thomas yn siarad ar y testun 'Draw, draw yn China....'

**Paned a Sgwrs**
Roedd yn braf yn ddiweddar, yn y cwrdd merched, gael cwmni Victorio Antonovski o Skopje, prifddinas Gogledd Macedonia. Treuliodd Victorio rai blynyddoedd yn UDA gan ennill graddau ym maes Peirianneg. Yno hefyd y daeth yn Gristion. Bu'n byw gyda theulu Cristnogol a dechrau darllen y Beibl. Ar ôl dod i gredu yn Iesu Grist teimlodd faich mawr dros ei wlad enedigol a dychwelodd i fyw yn Skopje. Bellach mae'n gweithio mewn eglwys yno ac yn treulio tipyn o amser yn efengylu ac yn ceisio sgwrsio am yr Efengyl gyda'r trigolion yno. Mae hefyd bellach yn cael ei gefnogi gan y Gymdeithas Genhadol Ewropeaidd (EMF). Bu'n sôn am ei waith mewn sawl capel yn ne Cymru. Ein braint yw gweddïo drosto.

**Pregethau'r Sul**
Yn ddiweddar mae Emyr, ein gweinidog, wedi dechrau cyfres newydd ar nos Sul, yn edrych ar yr epistol at yr Hebreaid. Pwyslais yr epistol yma yw pwysleisio rhagoriaeth yr Arglwydd Iesu Grist. Edrychwn ymlaen at glywed gweddill y gyfres dros y misoedd nesaf.

**Sadwrn y Merched**
Yn ein cyfarfod misol 'Sadwrn y Merched' y bwriad yw edrych ar y gwahanol fathau o weddïau a welwn yn y Beibl. Yng nghyfarfod mis Medi buom yn edrych, o dan arweiniad Catrin Lewis, ar Salm 145 a'r weddi o fawl ac addoliad a welwn yno. Cawsom amser buddiol yn trafod ac yn gweddïo gyda'n gilydd.

## EGLWYS DEWI SANT

Dydd Iau, 28 Awst, Abaty Margam oedd cyrchfan pererindotwyr Eglwys Dewi Sant. Mwynhawyd pererindod fendithiol ac addysgiadol. Wedi cinio swmpus a blasus yn Nhafarn Tywysog Cymru, Mawdlam, profwyd croeso twymgalon gan warden yr Abaty a olrheiniodd hanes y lleoliad o'r oes Rufeinig i'r 19eg ganrif, pryd y daeth yn eiddo y teulu Talbot. Mor gyfoethog hefyd oedd hanes a gwrthrychau'r Abaty. Rhaid nodi fod tri o'r pererinion wedi llwyddo i gyrraedd adfeilion yr Hen Gapel Mair ar ben y bryn. Diolch i Dyfrig a Delyth am drefnu.

**Drysau Agored – Cadw**

Fel rhan o gynllun Drysau Agored Cadw a gweithgarwch Cytûn Dinas Caerdydd a'r Bae mae Eglwys Dewi Sant, ynghyd ag Eglwys Gadeiriol Fetropolitan Dewi Sant, Tabernacl yr Ais ac Eglwys Sant Ioan Fedyddiwr wedi creu "helfa hanes" o amgylch y bedair eglwys. I'r perwyl hwn agorwyd drysau Eglwys Dewi Sant ar y ddau fore Sadwrn cyntaf ym mis Medi. Diolch i bawb a fu'n gwarchod yr eglwys dros y ddau gyfnod ac i'r organyddion am y gerddoriaeth.

**Y Ganolfan Glyd**

Diolch i bawb wirfoddolodd i helpu brynhawn Sul, 14 Medi.

**Coffi a Chlonc**

Daeth criw teilwng i'r bore coffi a chlonc fore Sadwrn, 20 Medi. Da oedd cael ail gychwyn ar ôl gwyliau'r haf.

# Colofn Chwaraeon Hywel Owen

## Tymor llwyddiannus cricedwyr Morgannwg

Ar 18 Medi roedd cefnogwyr Morgannwg yn dathlu'r ffaith bod y sir wedi sicrhau dyrchafiad i haen uchaf Pencampwriaeth y Siroedd am y tro cyntaf mewn 21 mlynedd. Ar ôl haf hyfryd lle nad oedd y tywydd wedi amharu llawer ar gemau Morgannwg, roedd sicrhau gêm gyfartal yn erbyn Swydd Derby yn sgil tywydd anffafriol iawn yn ddigon i selio dyrchafiad.

Ar ôl dechrau trychinebus i'r tymor gan golli dwy o'r dair gêm gyntaf, dim ond cefnogwyr mwyaf optimistaidd Morgannwg fyddai wedi dychmygu llwyddiant erbyn diwedd y tymor. Ond llwyddodd Morgannwg i fod yn ddi-guro yn y Bencampwriaeth Pedwar Niwrnod o ddiwedd Ebrill tan gêm olaf y tymor ddiwedd Medi yn erbyn Swydd Gaerhirfryn. Bu'r trawsnewidiad yn rhyfeddol!

Rhaid talu clod i hyfforddwr newydd y sir eleni, Richard Dawson, am y gwaith clodwiw y mae wedi cyflawni. Rhaid cofio na fu llawer o newidiadau i'r garfan nad oedd wedi mynd yn agos i sicrhau dyrchafiad yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Bu'n dymor i'w gofio i ddau o chwaraewyr ifainc y sir - Asa Tribe o Jersey a Ben Kellaway o Gas-gwent. Y gobaith nawr yw y bydd llwyddiant y ddau chwaraewr yma yn ysbrydoli mwy o gricedwyr ifainc yng Nghymru fod modd llwyddo yn y byd criced proffesiynol. Cafodd y batwyr profiadol Sam Northeast, Colin Ingram a Kieran Carlson o'r Eglwys Newydd dymor llwyddiannus hefyd. Y disgwyl nawr yw mai Carlson fydd y capten flwyddyn nesaf wrth i Northeast ddychwelyd i'w sir enedigol yn sgil rhesymau teuluol.

Mae cefnogwyr Morgannwg wedi bod yn poeni am safon bowlio'r tîm ers sawl tymor ond er dechrau siomedig cafwyd sawl perfformiad clodwiw gan Asitha Fernando o Sri Lanka tra bod Timm van der Gugten, James Harris, Andy Gorvin, Ned Leonard Zain ul Hassan a Mason Crane wedi cymryd wicedi allweddol yn ystod y tymor.

Yn ddi-os bydd angen cryfhau'r garfan ar gyfer yr her fydd yn wynebu'r sir yn yr adran gyntaf y flwyddyn nesaf. Er bod y batiwr profiadol Sean Dickson eisoes wedi arwyddo o Wlad yr Haf mae'n debygol fod angen arwyddo batiwr arall i agor y batio a dau fowliwr cyflym er mwyn gallu cystadlu gyda thimau cryf yr adran gyntaf.

Er y llwyddiant yn y Bencampwriaeth Pedwar Niwrnod pur siomedig fu'r perfformiadau yn y cystadlaethau undydd. Bu peth gwelliant yn y gystadleuaeth 20 pelawd gan ennill 7 o 14 gêm ond dim ond un gêm y llwyddwyd i'w hennill yn y gystadleuaeth 50 pelawd – siom mawr yn dilyn ennill y gystadleuaeth y llynedd.

Ond y flaenoriaeth eleni oedd sicrhau dyrchafiad yn y Bencampwriaeth Pedwar Niwrnod a llwyddwyd i gyflawni hynny.

Rhaid talu clod hefyd i dîm merched Morgannwg yn sgîl tymor llwyddiannus gan gyrraedd rownd derfynol cystadleuaeth undydd yr ail adran a rownd gyn-derfynol y gystadleuaeth 20 pelawd.

Y gobaith nawr yw bydd modd adeiladu ar y llwyddiant hwn y flwyddyn nesaf a bydd timau dynion a merched Morgannwg yn mynd o nerth i nerth.





# Gwylio'r Geiniog

## Huw Aled Accountants



1. Gwelodd diwedd mis Medi nifer o bobl ifanc yn gadael cartref am y tro cyntaf i gychwyn ar eu taith yn y Brifysgol. Ydych chi wedi siarad â'ch plant/wyrion am bwysigrwydd arian?

Mae'n debyg iawn mai cael trefn ar eu cyllideb fydd y peth olaf ar eu meddyliau wrth iddynt feddwl am y rhyddid a'r profiadau sydd o'i blaenau. Efallai y byddai'n ddoeth i gael sgwrs fer i sicrhau eu bod yn deall goblygiadau taliadau cerdyn credyd a chyfraddau llog ar symiau gorddrafft, cyn iddynt wario eu benthyciadau myfyriwr yn llawn cyn diwedd mis Hydref!

2. Ydych chi'n ystyried prynu car trydan? Cyhoeddodd y Llywodraeth yn ddiweddar pa geir trydan sy'n gymwys i gael gostyngiad mewn pris o £3,750 o dan gynllun grant newydd. Bydd hyn yn helpu i ostwng pris ceir trydan i gost sy'n agosach at gost ceir petrol/disel.

3. Mae nifer fawr o bobl wedi cysylltu â ni yn ystod y mis diwethaf i dynnu sylw at sgam eang ynghylch y Taliad Tanwydd Gaeaf, gyda sgamwyr yn mynnu bod angen gwneud cais ar unwaith i'w hawlio a bod yn rhaid i chi ddarparu eich manylion banc. Mae hwn yn SGAM! Bydd pob pensiynwr yng Nghymru a Lloegr yn derbyn y taliad yn awtomatig ac os ydych chi'n ennill mwy na £35,000, bydd angen i chi ad-dalu hwn i'r Llywodraeth maes o law. Cysylltwch â'ch teulu a'ch ffrindiau a allai fod wedi dioddef o'r sgam hyn.

**Cwestiynau Huw ac Aled**

*C: Mae golwg fy mam-yng-nghyfraith wedi dirywio ers nifer o flynyddoedd, ac er ei bod wedi bod yn ymdopi, gyda'n cefnogaeth ni fel teulu, mae hi bellach wedi'i chofrestru'n ddall gyda'i hawdurdod lleol. Soniodd rhywun y gallech chi efallai hawlio rhyddhad treth ychwanegol fel person dall, ond dydyn ni ddim yn siŵr. Allwch chi egluro a yw rhyddhad o'r fath yn bodoli?*

A: Mae lwfans ar gael i unigolion sydd naill ai'n ddall neu sydd â nam difrifol ar eu golwg. Yng Nghymru a Lloegr, gall unigolyn hawlio 'Lwfans Person Dall' o dan y canllawiau canlynol:

i) Os ydynt wedi cofrestru gyda'u cyngor lleol fel unigolyn dall neu â nam difrifol ar eu golwg, ac

ii) Os oes ganddynt ddogfen wrth eu meddyg sy'n cadarnhau eu bod yn ddall neu â nam difrifol ar eu golwg.

Gellir gwneud cais i'r Swyddfa Dreth ac os yw'n llwyddiannus, ychwanegir lwfans di-dreth ychwanegol (£3,130 ar hyn o bryd) at lwfans di-dreth incwm personol yr unigolyn.

Os nad yw eich mam-yng-nghyfraith yn ennill mwy na £12,570 ei hun, mae modd iddi drosglwyddo ei Lwfans Person Dall i'w phriod, os yw ei phriod yn ennill mwy na £12,570.

Yn olaf, os cofrestrwyd eich mam-yng-nghyfraith yn ddall flynyddoedd lawer yn ôl, ond dyw hi ddim wedi hawlio'r Lwfans Person Dall hyd yma, gellir ôl-ddyddio cais am gyfnod o hyd at 4 blynedd cyn y flwyddyn dreth gyfredol (ceir amodau penodol).

*Am fwy o fanylion cysylltwch â ni drwy:*
*Huwaledaccountants.com neu 029 20694524*

---

MENTER IAITH BRO MORGANNWG

Wrth i'r dail newid lliw a'r gwyntoedd ddod â naws newydd i'r tir, mae Menter Iaith Bro Morgannwg yn troi'r dudalen ar hydref llawn gweithgareddau i bawb, o'r lleiaf i'r hynaf.

Rydym eisoes wedi lansio cyfres o gwisiau misol mewn lleoliadau amrywiol ar draws y sir, ac mae'n bleser gennym gyhoeddi mai'r Bakehouse yn Llanilltud Fawr fydd cartref yr ail gwis ar nos Fawrth 21 Hydref am 7.30.

Mae'r sesiynau amser stori poblogaidd ar draws y sir yn parhau, ynghyd â chyfleoedd i chwarae'n braf dros hanner tymor yr Hydref yn Bwrlwm. Cyn bo hir, byddwn hefyd yn cyhoeddi rhaglen o glybiau ieuenctid ar ôl ysgol, a pharhau i gefnogi cyrsiau Cymraeg i oedolion dan ofal y sir.

Mae siaradwyr newydd yn greiddiol i'n cenhadaeth, ac rydym yn falch o gydweithio gyda Dysgu Cymraeg i gynnal gig arbennig ar nos Wener, 24 Hydref yn y Bierkeller ar Ynys y Barri. Dewch i fwynhau Mei Gwynedd ac Alis Glyn, enillydd Tlws Sbardun 2025, mewn noson llawn hwyl a cherddoriaeth fyw.

Efallai ei bod hi ychydig yn gynnar i sôn am Nadolig, ond dyw hi byth rhy gynnar i gyhoeddi'r Gig Pafiliwn y Pier ar Nos Iau, 13 Tachwedd! Bydd Catsgam, Melda Lois a'r Gerddorfa Ukulele yn llenwi'r noson â thonau acwstig hyfryd dros donnau'r môr ym Mhenarth. Tocynnau ar werth nawr ar ein gwefan: menterbromorgannwg.cymru

Cofiwch ein dilyn ar Facebook ac Instagram. Os oes rhywbeth yn mynd â'ch bryd - hoffwch, rhannwch, ond yn fwy na dim, dewch draw i ymuno â ni yn y gweithgareddau dros y misoedd nesaf.

# Y DIGWYDDIADUR

## Hydref

**Sadwrn, 11 Hydref**
Bore Siarad Cymraeg (lefel ganolradd ac uwch). Dewch i ymarfer eich Cymraeg a gwrando ar sgwrs gan y Parch. Meirion Thomas ar y testun ‘Draw, draw yn China’, yn Hyb Rhiwbina (CF14 6EH) am 10.30am. Yn rhad ac am ddim. Nid oes angen cofrestru ymlaen llaw. Dan nawdd Eglwys Efengylaidd Gymraeg Caerdydd. Croeso cynnes i bawb.

**Sadwrn, 11 Hydref**
Perfformiadau gan Adwaith yn Stiwdio Weston, Canolfan Mileniwm Cymru, am 7.30pm (‘O Dan yr Haenau’) ac am 9.30pm (‘Solas’). Manylion pellach: https://www.wmc.org.uk/cy/digwyddiadur/2025/adwaith

**Mawrth, 14 Hydref**
Merched y Wawr, Cangen Caerdydd. Sgwrs gan Dr Aled Eirug ar y testun ‘Cofio Dafydd Elis-Thomas’, yn Eglwys Fethodistaidd Cyncoed, CF23 6SE (ar y gornel rhwng Westminster Crescent a Heol Cyncoed) am 7.00pm. Bydd cyfle i brynu copi o lyfr Aled Eirug am Dafydd Elis-Thomas yn ogystal â nwyddau eraill o siop ‘Cant a Mil’ ar ddiwedd y noson. Croeso cynnes i aelodau hen a newydd. Am ragor o fanylion, cysylltwch ag Eluned Press (eluned@press0.plus.com; 07761-358755).

**Mawrth, 14 Hydref**
Cymdeithas Ddiwylliannol Eglwys Minny Street. Noson yng nghwmni dwy chwaer o fyd y cyfryngau, Sara Esyllt a Catrin Heledd, am 7.30pm yn festri’r capel (CF24 4ER). Croeso cynnes i bawb.

**Mercher, 15 Hydref**
Menter Bro Morgannwg yn cyflwyno ‘Gig Shwmae Bro’, yng nghwmni Dagrau Tân, Tonnau a Penbleth, yn Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg (CF62 8YU). Ar gyfer disgyblion Blynyddoedd 7–9. Tocynnau: £3 ymlaen llaw; £5 wrth y drws. Manylion pellach: https://menterbromorgannwg.cymru/event/gig-shwmae-bro-cy

**Iau, 16 Hydref**
Merched y Wawr, Cangen y Felin. Siaradwyr newydd gyda Helen Prosser, yn neuadd Capel y Methodistiaid, Heol Kelston, Yr Eglwys Newydd, CF14 2AA, am 7.30pm. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Janet James ar 07810-363232. Croeso cynnes i aelodau hen a newydd.

**Gwener, 17 Hydref**
Taith o gwmpas Canolfan Mileniwm Cymru (trwy gyfrwng y Gymraeg) yn dechrau am 10.00am. Manylion pellach: https://www.wmc.org.uk/cy/digwyddiadur/2025/teithiau-yn-gymraeg

**Gwener, 17 Hydref**
Cylch Llyfryddol Caerdydd. Bydd yr Athro Angharad Price yn trafod ei nofel, *Nelan a Bo*, trwy gyfrwng Zoom am 7.15pm. I ymaelodi (£10 am y flwyddyn) ac i dderbyn y ddolen Zoom, cysylltwch â’r Ysgrifennydd, yr Athro E. Wyn James. Croeso cynnes. (JamesEW@caerdydd.ac.uk).

**Llun, 20 Hydref**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina. Bydd Wyn Jones yn siarad ar y testun ‘Cadw’n Saff ar y We’ yng nghapel Bethel, Maes-y-deri, Rhiwbina, CF14 6JJ, am 7.30pm. Manylion pellach oddi wrth yr Ysgrifennydd, Gwyneth Stephens (penrhiwalltycnap@gmail.com). Croeso i aelodau hen a newydd.

**Mawrth, 21 Hydref**
Mentrau Iaith Cymru. Taith dywys i ddysgwyr trwy Stadiwm y Principality yng nghwmni Gwyn Derfel o Undeb Rygbi Cymru, rhwng 10.30am a hanner dydd. Yn rhad ac am ddim. I gofrestru, cysylltwch ag ardroed@mentrauiaith.cymru

**Iau, 23 Hydref**
Cylch Cadwgan. Bydd y Prifardd Owain Rhys, enillydd Coron Wrecsam, yn siarad am ei waith yng Nghlwb Rygbi Pentyrch am 8.00pm. Trefnir y cyfarfod gan Glwb y Dwrlyn. Am fanylion pellach, cysylltwch ag Ysgrifennydd Cylch Cadwgan, y Prifardd Glenys M. Roberts (groberts@btinternet.com).

**Iau, 23 Hydref**
Menter Caerdydd yn cyflwyno ‘Laffwyl!’ yn nhafarn Parc Fictoria (CF5 1JL) am 7.30pm. Tocynnau: £10 (£12 wrth y drws). Manylion www.mentercaerdydd.cymru

**Gwener, 24 Hydref**
Dysgu Cymraeg Bro Morgannwg a Menter Iaith Bro Morgannwg yn cyflwyno gig acwstig gyda Mei Gwynedd ac Alis Glyn (enillydd Tlws Sbardun 2025), yn Bierkeller, Ynys y Barri, CF62 5TQ, am 7.30pm. Am ddim. Tocynnau: www.menterbromorgannwg.cymru

**Llun, 27 Hydref**
Menter Caerdydd. ‘Sgwrs y Mis’ gan Dr Ffion Mair Jones ar y testun ‘Taith i fyd Thomas Pennant a’i gymdeithion Cymreig’. Trwy gyfrwng Zoom am 7.30pm. Awgrymir cyfraniad o £5 y sgwrs neu £20 am y flwyddyn. I gofrestru, cysylltwch â Rachel Matthews (rachel@mentercaerdydd.cymru).

**Mawrth, 28 Hydref**
Cymdeithas Ddiwylliannol Eglwys Minny Street. *Y Caeth yn Rhydd*: Y Prifardd Jim Parc Nest, am 7.30pm yn festri’r capel (CF24 4ER). Croeso cynnes i bawb.

**Gwener, 31 Hydref**
Melin yn cyflwyno EDEN acwstig yng Nghlwb Rygbi yr Eglwys Newydd. Tocynnau ar werth yn siop Iechyd Da, Yr Eglwys Newydd (£20).

## Tachwedd

**Sadwrn, 1 Tachwedd**
Taith gwylio adar fisol dan arweiniad Eirian a Gwilym Dafydd, yn dechrau am 10.30am. Am ddim. Am ragor o wybodaeth, anfonwch at eirianagwilym@gmail.com


**Sadwrn, 1 Tachwedd**
Theatr Sherman a Theatr Cymru yn cyflwyno ‘Biwti a Brogs’ gan Gwawr Loader. Ar gyfer plant 3–6 oed. Manylion pellach: https://www.shermantheatre.co.uk/event/biwti-a-brogs/?lang=cy neu ffoniwch 029-2064-6900.


**Gwener, 7 Tachwedd**
Cymrodorion Caerdydd. Sgwrs gan yr Athro Merfyn Jones ar y testun ‘Radicalaiaid Portmeirion, Y Sosialwyr Siampén’. Trwy gyfrwng Zoom am 7.30pm. I ymaelodi (£10 am y flwyddyn) ac i dderbyn y ddolen Zoom, cysylltwch â’r Ysgrifennydd, yr Athro E. Wyn James. Croeso cynnes. (JamesEW@caerdydd.ac.uk).

**Mawrth, 11 Tachwedd**
Merched y Wawr, Cangen Caerdydd. Sgwrs gan Nerys Howell ‘Bwyd Tymhorol’, yn Eglwys Fethodistaidd Cyncoed, CF23 6SE (ar y gornel rhwng Westminster Crescent a Heol Cyncoed), am 2.30pm. Croeso cynnes. Am ragor o fanylion, cysylltwch ag Eluned Press (eluned@press0.plus.com; 07761-358755).

**Anfonwch fanylion ar gyfer y Digwyddiadur at yr Athro E. Wyn James, Manylion ar dud. 2**

## Rhif: 256



**Ar Draws**
4. ‘Gwae inni wybod y geiriau heb ----- y Gair’ (DGJ) (7)
8. Cymro adnabyddus yn cuddio ei ddefosiwn (6)
9. ‘Dwy neu dair ----- ffel,
A daffodil, bid siŵr’ (WCW) (7)
10. ‘Mae dail y coed yn ----- Fflur
Yn murmur yn yr awel’ (TGJ) (6)
11. Rhaid dechrau edrych drwy’r eiddew niweidiol i ffeindio’r ardd (4)
12. Drama geg sy’n ymdrin â geiriau (8)
18. Ceidawd y caer yn rhoi silff mewn cornel (8)
20. Gwn taw dryw ar yn ail sy’n achosi’r sŵn mawr (4)
21. A yw eli Ian yn rhoi bywyd newydd? (6)
22. Un felen rywsut yn gallu dadansoddi (7)
23. ‘Gwynt yr hydref ruai neithiwr
Crynai’r dref ----- -----’ (WCW) (1’1,4)
224. Cadarnhau ei fod yn gweddu i’r dim (7)

**I Lawr**
1. Drysu mewn pranc ymysg unigolion (7)
2. Ffedogau rhacs (7)
3. Ffrwydd gradd? Na! Na! (6)
5. Diana yn torri grym y cibau ysgornllyd….. (8)
6. ….. a falle nawr cawn weld ffrwyth o hon (6)
7. ‘O wybod mae ----- fu
Dy hela di hyd waun a rhos’ (IDH) (6)
13. Richard bach hapus ond a chalon leddf mewn dicter (8)
14. A ddaw llu oddeutu ddechrau Ebrill i gael yr agoriadau? (7)
15. Newid llythrennau wrth grwydro (7)
16.’----- ----- yn erfyn sydd yn y darlun
Wrth ymyl fy ngwely i’ (TRH) (3,3)
17. ‘-----, fe wneir, fe’m golchir innau,
Gwn, mi wn y byddaf byw’ (WM) (6)
19. Mw mw! Me me! Cwac cwac! (6)

**Enillydd Croesair Rhif 254**
**Phil Stone, Treganna**

**Atebion Croesair Rhif 254**
**Ar Draws**
6. Yr Iawn a 7. Clust 9. Gyrfa 10. Achlysur 12 Yn cofleidio 14. Hud a miri haf 18. Cryndod 19. Atgas 21. Addurn 22. Llafurio
**I Lawr**
1. Croyw 2. Carfan 3. Cnu 4. Clwydi 5. Astudio 8. Ucheldir 11. Godidiog 13. Budreddi 15. Annerch 16. Astrus 17. Cario 20 Chas

Danfonwch eich atebion at Rhian Williams
erbyn 5 Tachwedd, 2025
22 Heol Cae Rhys, Rhiwbeina,
Caerdydd, CF14 6AN
Gwobr: Tocyn llyfr £10

# Cymdeithas Gymraeg Dinas Powys

Bore Llun 8 Medi daeth aelodau Cymdeithas Gymraeg Dinas Powys at ei gilydd i agor tymor 2025/26. Roedd y Gymdeithas yn dathlu ei phen-blwydd yn 60 a braf oedd gweld cymaint o'n haelodau wedi ymgynnull i fwynhau'r dathliad. Croeso, Cacen, Coffi a Chlecs oedd thema'r cyfarfod heb anghofio'r Canu wrth i'n cadeirydd Rhodri Jones ein harwain mewn corws egnïol (!) o Ben-blwydd Hapus.




Sefydlwyd y Gymdeithas ym Mis Medi 1965 er mwyn dod a Chymry Cymraeg ardal Dinas Powys, Penarth a Sili at ei gilydd i fwynhau cymdeithasu. Rheithor Eglwys San Pedr Dinas Powys Parch, J. Lloyd Richards oedd Llywydd cyntaf y Gymdeithas a neuadd Eglwys San Pedr fu ein cartref am flynyddoedd nes i ni benderfynu cyfarfod yn y boreau yn hytrach na'r hwyr. Cawsom fore hyfryd wrth ddathlu ein pen-blwydd. Wrth fwyta'r gacen ac yfed y coffi cafwyd cyfle i hel atgofion am y gorffennol a sgwrs frwdfrydig ymhlith ein gilydd eto o dan arweiniad ein cadeirydd Rhodri am bwysigrwydd cadw'r Gymraeg yn fyw, gyda phawb yn cytuno.

Erbyn hyn mae gennym fan cyfarfod newydd - Neuadd Lee, Heol Britway, Dinas Powys, ar ail fore Llun y mis, am 11 o'r gloch. Croeso i chi ddod atom ni.

# Menter Caerdydd

Wedi dechrau prysur i'r tymor, bydd Menter Caerdydd yn lansio mwy o gyrsiau newydd dros yr wythnosau nesaf yn ogystal â threfnu llu o weithgareddau i aelodau iau'r teulu dros hanner tymor. Byddwn hefyd yn dathlu Diwrnod Shwmae Su'mae ar 15 Hydref gan gynnal gweithgareddau hwyliog yng nghanol y brifddinas. Gyda'r pwyslais eleni ar gael 'hwyl' yn Gymraeg, edrychwn ymlaen at glywed sut byddwch chi'n dathlu'r diwrnod! Dyma gip ar rai o weithgareddau mis Hydref:

**Cynganeddu**

Bydd y sesiynau Cynganeddu yn ail-ddechrau ar nos Fawrth, 7 Hydref gyda thri dosbarth ar gyfer gwahanol lefelau. Bydd y dosbarthiadau'n cwrdd yn Chapter, gydag opsiwn i ymuno ar-lein. Ceir manylion llawn ar y wefan. £98 am 10 sesiwn.

**Teithiau Tywys**

Rydym yn cydweithio â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a Mentrau Iaith Cymru i gynnal taith dywys ar gyfer siaradwyr newydd i Stadiwm y Principality ar fore Mawrth, 21 Hydref. I gofrestru, anfonwch e-bost at: ardroed@mentrauiaith.cymru

Ar fore Iau, 13 Tachwedd, bydd taith dywys i Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd i weld y casgliadau crochenwaith a phorslen (10:30-11:30). Mae'r daith awr o hyd yn rhad ac am ddim ond mae'r niferoedd yn gyfyngedig. Gellir cofrestru ar y wefan ac mae'r ymweliad yn addas i bawb – siaradwyr rhugl a'r rhai sy'n dysgu Cymraeg.

**Laffwyl!**

Fe enillodd y comedïwr Steffan Alun wobr Pegasus am ei waith yng Ngŵyl Ymylol Caeredin eleni. Yn ffres o'r ffrinj, bydd cyfle i'w weld yn perfformio yn Laffwyl nos Iau, 23 Hydref yn Nhafarn Parc Fictoria. Hefyd yn perfformio bydd Siôn Owens ac Ellis Lowe a'r MC Aled Richards fydd wrth y llyw. Tocynnau: £10 o flaen llaw neu £12 ar y drws. Amser: 7.30yh.

**Sgwrs y Mis**

Taith i fyd Thomas Pennant a'i gymdeithion Cymraeg a gawn yn Sgwrs mis Hydref yng nghwmni Dr Ffion Mair Jones o'r Ganolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd. Roedd y teithiwr a'r naturiaethwr Thomas Pennant, yn ffigwr rhyngwladol yn ystod ei oes ond yn un a gollwyd yn yr ymwybod Cymreig wedi ei ddyddiau. Ceir cyfle i fwrw golwg ar ddylanwad Pennant ar Gymry'r ganrif wedi ei farwolaeth, hyd at gyhoeddi cyfieithiad arloesol yr ysgolhaig John Rhŷs o'i waith mwyaf Cymreig, Teithiau yng Nghymru. Nos Lun, 27 Hydref, 7.30yh ar Zoom. (Awgrymir cyfraniad o £5 y sgwrs i'r rhai sydd heb ymaelodi am y flwyddyn.)

**Edrych ymlaen at fis Tachwedd:**

Cwrs ar Zoom yng nghwmni Bethan Mair: 'Ynof Mae Cymru'n Un: trafod rhai o gerddi TH Parry-Williams, Waldo, Gwenallt a Saunders Lewis' (3, 10, 17, 24 Tachwedd am 7.30yh, £20).

**Gweithgareddau yn y gymuned**

Cofiwch am ein boreau coffi yn Hyb Rhiwbeina, Hyb Rhydypennau a Hyb Llaneirwg bob yn ail wythnos a'r sesiynau sgwrsio wythnosol bob prynhawn Iau yn Hyb y Llyfrgell Ganolog. Mae'r sesiynau yn gyfle i siaradwyr rhugl a'r rhai sy'n dysgu Cymraeg ddod at ei gilydd am sgwrs.

**Plant a Theuluoedd**

Rydym yn falch o gyhoeddi bydd ein cynllun Gofal yn rhedeg mewn tair ysgol yn ystod gwyliau hanner tymor mis Hydref - Ysgol Treganna, Ysgol Melin Gruffydd ac Ysgol Y Berllan Deg. Y gost yw £35 y diwrnod ac mae'r dyddiadau a'r manylion cofrestru i'w gweld ar ein gwefan.

Bydd y sesiynau chwarae agored rhad ac am ddim, Bwrlwm, hefyd yn dychwelyd gyda gweithgareddau hwyliog i blant oed cynradd ar draws y ddinas.

Am fwy o fanylion am Gofal a Bwrlwm, gweler yr hysbysebion.

**Bwrlwm Teulu Tafwyl!**

Yn dilyn llwyddiant ein sesiynau misol i blant niwroamrywiol a'u teuluoedd, bydd y cynllun yn parhau yn nhymor yr hydref. Cynhelir y sesiwn nesaf yn Neuadd Ysgol Treganna am 10.30yb ar fore Sul, 26 Hydref. Mae'r sesiynau'n rhad ac am ddim ac yn addas ar gyfer y rhai sydd wedi derbyn diagnosis neu ar y rhestr aros.

**Gwersi Gwnïo**

Dewch i ymuno â Janet James ar gyfer cyfres newydd o wersi yn canolbwyntio ar sgiliau gwnïo yn defnyddio peiriant. Mae croeso i chi ddod â'ch peiriant eich hun ond bydd nifer ar gael i'w benthyg. Cynhelir y dosbarthiadau bob nos Fawrth 4 Tachwedd, am 6.30-8.00yh yn Yr Atrium, Prifysgol De Cymru, a'r gost yw £60 am 6 sesiwn.

**Gigs y Rhath**

Mae Menter Caerdydd yn falch o gefnogi menter newydd i gynnal gigs Cymraeg yn nwyrain y ddinas. Y syniad yw cynnal nosweithiau cerddorol yn Paradise Gardens, City Road, gan ddechrau gyda noson yng nghwmni'r gantores Alis Glyn a'r band ifanc Paralel, nos Fercher, 12 Tachwedd. Tocynnau: £10 o wefan Menter Caerdydd.

I gofrestru ar gyfer gweithgareddau i oedolion, ewch i: mentercaerdydd.cymru/cy/oedolion

I gael gwybodaeth am weithgareddau i blant: mentercaerdydd.cymru/cy/plant-a-phobl-ifanc

Cadwch lygad ar y wefan a'r cyfryngau cymdeithasol am fwy o wybodaeth!

Gwefan: mentercaerdydd.cymru / menterbromorgannwg.cymru
Facebook: @m.caerdydd / @MIBroMorgannwg
Instagram: @mentercaerdydd / @menterbromorgannwg E-bost / Ffôn: post@mentercaerdydd.cymru / 029 2068 9888